



At: Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor  
Archwilio Partneriaethau

Dyddiad: Dydd Gwener, 25 Ionawr  
2013

Rhif Union: 01824 712554

ebost: dcc\_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR ARCHWILIO PARTNERIAETHAU, DYDD IAU, 31 IONAWR 2013** am **9.30 am** yn **YSTAFELL BWYLLGORA, 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN.**

Yn gywir iawn

G Williams  
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democraidaidd

## AGENDA

### **RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FYNYCHU RHAN HON Y CYFARFOD**

#### **1 YMDDIHEURIADAU**

#### **2 DATGAN BUDDIANNAU**

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw fuddiannau personol neu ragfarnus mewn unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

### **3 MATERION BRYD FEL Y CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys dan Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

### **4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 5 - 22)

- (i) Derbyn cofnodion cyfarfod arbennig y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ar ddydd Iau, 29ain Tachwedd 2012 (copi'n amgaeedig)
- (ii) Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ar ddydd Iau, 20fed Rhagfyr 2012 (copi'n amgaeedig)

### **5 GWASANAETH RHANBARTHOL EFFEITHIOLRWYDD YSGOLION A CHYHNWYSIANT** (Tudalennau 23 - 76)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Addysg (copi ynghlwm) yn manylu'r cynnydd hyd yma gyda sefydlu a rhedeg Gwasanaeth Rhanbarthol Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion, a'r manteision a welwyd hyd yma o'i sefydlu.

**9.35 a.m.**

### **6 STRATEGAETH GWYBODAETH AC YMGYNGHORI – GOFALWYR GOGLEDD CYMRU** (Tudalennau 77 - 128)

Ystyried adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Oedolion a Busnes (copi ynghlwm) mewn perthynas â gweithredu Mesur Strategaethau Gofalwyr (Cymru) 2012 fel y nodwyd yn Strategaeth Gwybodaeth ac Ymgynghori Gofalwyr Gogledd Cymru 2012 – 2015.

**10.10 a.m.**

### **Egwyl**

### **7 DARPARIAETH GOFAL ANNIBYNNOL – COMISIYNU A MONITRO** (Tudalennau 129 - 134)

Ystyried adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Oedolion a Busnes (copi ynghlwm) a oedd yn manylu'r ddarpariaeth gofal annibynnol a gomisiynwyd gan Gyngor Sir Ddinbych a sut caiff ansawdd y gofal hwnnw ei fonitro.

**10.55 a.m.**

### **8 TEULUOEDD YN GYNTAF** (Tudalennau 135 - 144)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio Busnes a Pherfformiad (copi ynghlwm) a oedd yn rhoi diweddariad ar y sefyllfa bresennol mewn perthynas ag elfennau a gomisiynwyd a rhai nas comisiynwyd yn Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf Sir Ddinbych ar gyfer cyfnod ariannol 2012-2014 .

**11.30 a.m.**

**9 RHAGLEN WAITH CRAFFU (Tudalennau 145 - 160)**

Ystyried adroddiad gan y Cydgysylltydd Craffu (copi'n amgaeëdig) yn gofyn am adolygiad o flaenraglen waith y Pwyllgor ac yn diweddarau'r aelodau ar faterion perthnasol.

**12.05 p.m.**

**10 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR**

Derbyn unrhyw ddiweddariadau gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar amrywiol Fyrddau a Grwpiau'r Cyngor.

**AELODAETH**

Brian Blakeley  
Joan Butterfield  
Ann Davies  
Meirick Davies  
Alice Jones

Pat Jones  
Margaret McCarroll  
Dewi Owens  
Merfyn Parry  
Bill Tasker  
Huw Williams

**Aelodau Cyfetholedig dros Addysg sy'n Pleidleisio (Rhifau Eitemau Agenda 5 yn unig)**

Carole Burgess  
Gill Greenland  
Debra Houghton

Nicola Lewis  
Dr D. Marjoram

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth  
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd  
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## PWYLLGOR ARCHWILIO PARTNERIAETHAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd yn Ystafell Bwllgor 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Iau, 29 Tachwedd 2012 am 2.00 pm.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Brian Blakeley (Cadeirydd), Joan Butterfield, Ann Davies, Meirick Davies, Alice Jones (Is-Gadeirydd), Pat Jones, Margaret McCarroll, Dewi Owens a/ac Huw Williams

Observer Y Cyngorydd Jeanette Chamberlain-Jones a/ac Y Cyngorydd Bobby Feeley

### HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol, Moderneiddio a Lles (SE), Rheolwr Gwasanaeth, Ardal y Gogledd, (GG), Rheolwr Gwasanaethau Democraidd (SP) Gweinyddwr y Pwyllgor (SLW).

Cynrychiolwyr BIPBC:

Cyfarwyddwr Cynllunio (NB), Cofrestrydd Arbenigol, Iechyd Cyhoeddus (RA), Prif Ymarferwr Iechyd Cyhoeddus (DJ), Ymgynghorydd mewn Iechyd Cyhoeddus (KT), Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus (AJ), Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Datblygiad Gwasanaethau Cynradd a Chymunedol (CJ).

### 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Merfyn Parry a/ac Bill Tasker

### 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni ddatganodd aelodau unrhyw fuddiannau personol neu niweidiol mewn unrhyw fusnes sydd wedi ei nodi i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

### 3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

### 4 DIWEDDARIAD AR YR YMGYNGHORIAD A GYNHALIWDYD YN RHAN O ADOLYGIAD GWASANAETH BIPBC

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Cynllunio i BIPBC (D:P) adroddiad llafar i'r Pwyllgor o'r sefyllfa bresennol mewn perthynas ag Adolygiadau Gwasanaeth y GIG yn dilyn yr ymarferiad ymgynghori cyhoeddus. Roedd y cyfnod ymgynghori wedi dod i ben ar ddiwedd Hydref 2012. Roedd safbwyntiau unigolion, mudiadau, grwpiau cymunedol, Grwpiau Gweithredu, Cyngor Iechyd Cymunedol a staff i'w hystyried. Roedd oddeutu 1300 o bobl wedi mynychu'r cyfarfodydd a gynhaliwyd ar draws Gogledd Cymru, ac roedd oddeutu 800 o ymatebion ysgrifenedig wedi'u derbyn.

Roedd Opinion Research Services (ORS) wedi'u comisiynu i gynnal dadansoddiad o ymatebion ac roeddynt hefyd wedi anfon allan holiadur ar wahân ac wedi cynnal grwpiau ffocws. Roedd ORS wedi derbyn 1500 o ymatebion i'r holiadur ac roedd ORS hefyd wedi derbyn 700 o ymatebion i arolwg ar hap i aelwydydd.

Roedd yr holl ymatebion ar gael i'r Cyngor Iechyd Cymunedol, a gan fod nifer o fudiadau allweddol wedi ymateb yn eithaf hwyr yn y broses ymgynghori, byddai'r Bwrdd yn edrych ar gyflwyno'r holl ymatebion i gyfarfod y Bwrdd a fyddai'n cael ei gynnal yn Ionawr 2013. Byddai'r gwaith o roi'r penderfyniadau ar waith yn dechrau yn 2013.

Roedd tri angen allweddol.

- i. Roedd y mater o gludiant wedi'i godi gyda Llywodraeth Cymru, a oedd yn ymwybodol bod yna angen am gyd-bolisi.
- ii. Roedd y mater o bwysau ychwanegol posibl ar ofalwyr wedi'i godi a pha gymorth a fyddai'n cael ei ddarparu gan PBC.
- iii. Pryderon y byddai model y PBC yn rhoi pwysau ychwanegol ar Wasanaethau Awdurdod Lleol. Roedd angen i'r Awdurdod Lleol fod yn bartner ac yn rhan o'r gwaith o symud y gwasanaethau yn eu blaenau. Byddai angen gwaith pellach hefyd mewn perthynas â gofal gwell.

Dyma faterion y byddai'r Bwrdd yn ymdrin â hwy yn y cyfarfod yn Ionawr 2013.

Yn dilyn y diweddariad llafar, gofynnodd Aelodau y cwestiynau canlynol i gynrychiolwyr BIPBC:

- i. Cynghorydd Margaret McCarroll – a oedd yna ddyddiad pendant eto yn Ionawr 2013 pryd fyddai'r Bwrdd yn trafod yr ymatebion ymgynghori a gwneud unrhyw benderfyniad?  
Ymatebodd D:P y byddai Cyfarfod y Bwrdd yn cael ei gynnal ar 18 Ionawr 2013.
- ii. Cynghorydd McCarroll – a fyddai gwybodaeth ariannol fanwl ar gael i gyd-fynd â phenderfyniadau'r Bwrdd?  
D:P - byddai gwybodaeth ariannol fanwl yn rhan o'r broses gwneud penderfyniadau. Roedd yn rhaid i'r Bwrdd feddu ar wybodaeth lawn, gan gynnwys fforddiadwyedd, cyn y gallai wneud unrhyw benderfyniadau.
- iii. Cynghorydd Pat Jones – a fyddai gwybodaeth bellach ynghylch ymateb ymgynghorol Cyngor Sir Ddinbych ar gael yn y cyfarfod heddiw neu yn Ionawr 2013?  
D:P - byddai nifer fach o ymatebion a fyddai'n derbyn ymateb cyn Ionawr 2013, ond byddai'r rhan fwyaf yn rhan o'r broses gwneud penderfyniad ar 18 Ionawr 2013.
- iv. Cynghorydd Dewi Owens – A oedd diweddariad ar y cerrig milltir allweddol ar gyfer darparu'r papur?  
D:P – Byddai diweddariadau ar gael pan fyddai penderfyniadau yn cael eu gwneud. Mewn rhai meysydd, byddai'r amserlenni yn parhau'n dynn iawn.
- v. Cynghorydd Joan Butterfield – a oedd unrhyw gynnydd pellach ynghylch materion cludiant?  
D:P - Roedd trafodaethau pellach wedi digwydd gyda'r sector gwirfoddol, swyddogion cludiant Awdurdod Lleol a Llywodraeth Cymru ynghylch

goblygiadau cludiant. Nid oedd gwybodaeth ynghylch gwasanaethau allanol ar gael ar hyn o bryd. Yn nhermau cludiant, byddai'r Bwrdd yn ymdrin â'r mater ar 18 Ionawr.

Gofynnwyd cwestiynau pellach fel a ganlyn:

- Cynghorydd Alice Jones - a oedd PBC yn parhau i weithio i gyflwyno cynllun yn edrych ar opsiynau 2 + 1 o israddio ysbytai? Ynglŷn â'r lleoedd hyfforddi a gynigiwyd gan y Deanery, a fyddai hynny'n cael effeithiau ar wasanaethau eraill? Hefyd, byddai cynnal gwasanaethau mewn tri ysbyty yn anghynnaladwy ac roedd y cwestiwn hwn wedi'i ofyn yn gynharach yn yr ymgynghoriad?  
D:P – roedd yr ymgynghoriad wedi dechrau ar 19 Gorffennaf 2012 ac roedd y Bwrdd yn ymwybodol o anghenion y boblogaeth. Bu ymgynghori gyda chlinigwyr oherwydd bod PBC yn glir ynghylch recriwtio a hyfforddi meddygol ac i gynorthwyo yn y tymor hir, roedd arnom angen i glinigwyr gyflwyno model beiddgar.  
Yn nhermau'r Deanery ar gyfer hyfforddiant i Ogledd Cymru, roedd y Deanery wedi rhoi safonau i PBC ar gyfer hyfforddiant, sef gofyniad o'r hyn y byddent yn ei ddisgwyl a sut y byddai hyfforddiant yn cael ei ddarparu. Roedd PBC yn credu y dylid cadw gwasanaethau ar dri safle ond â phroblem gyda hyfforddi a recriwtio meddygol. Dyma gynigion na ellid eu diystyru yn y dyfodol.
- Roedd y Cynghorydd Bobby Feeley yn ddiweddar wedi mynychu Grŵp Rhanddeiliaid PBC ac wedi ysgrifennu drafft o'r canlyniadau cychwynol. Rhoddwyd sylw i'r mater o gau cyfleusterau cyn y byddai cyfleusterau newydd wedi'u hagor.  
D:P – Ymddiheurodd gan nad oedd yn ymwybodol o'r ddogfen yr oedd y Cynghorydd Feeley yn cyfeirio ati. Byddai'r ddogfen yn y parth cyhoeddus ac ar gael i bawb. Byddai dulliau PBC ar gyfer ymdopi yn y cyfamser wrth gau un cyfleuster ac agor un arall yn cael eu penderfynu yng nghyfarfod y Bwrdd ar 18 Ionawr, 2013.
- Cyfeiriodd y Cynghorydd Alice Jones eto at ei chwestiwn blaenorol a gofynnodd hefyd beth oedd y sefyllfa ynghylch recriwtio?  
D:P – roedd nifer o ffactorau. Roedd y Gyfarwyddeb Ewropeaidd ynghylch oriau gweithio doctoriaid iau, a newidiadau i'r polisi mewn fudo wedi digwydd. Roedd y GIG yn y gorffennol wedi cael ei gefnogi gan ddoctoriaid o is-gyfansdir India, ond roedd y doctoriaid hyn bellach yn dewis naill ai aros yn India neu weithio yn UDA. Nid oedd Swyddogion Tŷ nag Uwch Swyddogion Tŷ bellach yn bodoli. Unwaith bo'r cyfnod astudio pum mlynedd wedi'i gwblhau, roedd doctoriaid iau yn cael eu galw'n F1 am y flwyddyn gyntaf a F2 am yr ail flwyddyn. Pe byddai doctoriaid iau yn dewis gweithio fel Meddygon Teulu, byddent yn dilyn trywydd gwahanol. Pe byddent yn dewis arbenigo mewn maes arbennig, byddent yn gweithio am flwyddyn graidd. Nid oedd y mater yn broblem Gogledd Cymru yn uniongyrchol ond yn hytrach yn effeithio ar y DU gyfan.
- Cynghorydd Ann Davies – beth oedd yn cael ei wneud i wella morâl staff? A oedd swyddi doctoriaid yn cael eu rhewi?

D:P – nid oedd swyddi doctoriaid yn cael eu rhewi. Roedd staff dan bwysau drwy'r DU, ac roedd y pryderon a fynegwyd yn Ysbyty Glan Clwyd yr un fath â'r rhai yn Wrecsam Maelor, ac Ysbyty Gwynedd hefyd. Yn nhermau cefnogi staff, bu llawer o gefnogaeth ac er nad oedd manylion cynlluniau penodol ar gael yn y cyfarfod hwn, roedd angen sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r gefnogaeth oedd ar gael iddynt.

## **5 DIWEDDARIAD AR WEITHIO ARDALOEDD YN SIR DDINBYCH**

Rhoddodd y Cyfarwyddwyr Cynorthwyol, Datblygiad Gwasanaethau Cynradd a Chymuned (AS:PCSD) ynghyd â'r Rheolwr Gwasanaeth, Ardal y Gogledd (SM:NL) gyflwyniad i roi diweddariad ar gynnydd gyda gweithredu a symud ymlaen â'r gweithio ardaloedd yn Sir Ddinbych.

Roedd cefnogaeth wedi dod o gyfeiriad gwasanaethau cymdeithasol oedolion a thimau ardaloedd a oedd yn gweithio gyda PBC i ddatblygu'r cysyniad o Weithio Ardaloedd. Roedd timau wedi'u lleoli yn Ardal y Gogledd ac Ardal y Canolbarth / De i sicrhau ymagwedd mor wastad â phosibl at gyflawni anghenion gofal cymdeithasol ac anghenion iechyd trigolion gyda chyd-weithwyr iechyd cymunedol. Byddai'r ymagwedd hon yn gwella'r canlyniadau i'r trigolion mwyaf bregus trwy sicrhau bod gofal, cefnogaeth a thriniaeth yn cael eu darparu o fewn eu cartrefi eu hunain yn hytrach nag o fewn sefydliadau.

### **Ardaloedd Sir Ddinbych – Llwyddiannau.**

Gofal Gwell yn y Cartref. Dyma egwyddor ar y cyd i gynnal annibyniaeth yr unigolyn. Roedd cynlluniau hefyd ar y gweill i adnabod y sawl allai gael eu rhyddhau o'r ysbyty i dderbyn gofal gwell yn eu cartrefi eu hunain.

Peilot Cynllun Gofal Blaengar - dan arweiniad Dr. Chris Stockport i bobl gyda salwch terfynol. Y nod oedd galluogi bobl i dreulio wythnosau olaf eu bywydau yn y man o'u dewis hwy. Roedd Gogledd Sir Ddinbych yn cynnal cynllun peilot ar hyn o bryd. Staff gweinyddol y tîm Gofal Gwell oedd yn gweinyddu'r peilot gyda chefnogaeth Meddygon Teulu lleol. Yn hanesyddol, roedd y ffocws wedi bod ar wasanaethau cancr, ond roedd y tîm methiant arenau, y tîm resbiradol a'r timau dementia hefyd yn awyddus iawn i fod yn rhan o'r prosiect, ynghyd â'r tîm gofal lliniarol arbenigol a oedd wedi cyfrannu drwy'r broses, ac yn parhau i wneud hynny.

Dementia. Gwaith ynghylch dementia yn mynd yn ei flaen.

### **Cynnal Cydleoliad Tîm Hafan Lles yng Ngogledd Sir Ddinbych.**

Mae cydleoliad y tîm Hafan Lles yng Ngogledd Sir Ddinbych wedi bod yn gweithio'n dda. Yr her nawr yw cydleoli staff yn ardal y de, a bydd angen gwneud hynny o fewn y flwyddyn nesaf. Roedd materion ystâd yn effeithio ar y gallu i gydleoli staff gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd â'i gilydd yn Ardal y Canolbarth / De.

Roedd Gwasanaeth Mewnwythiennol Cymunedol ar gael o fewn y gymuned.

Roedd Gofal rhyngol priif ffrwd yn parhau



### **Mesurau Deilliannau'r Ardaloedd**

Bu hyn yn her enfawr a byddai gwaith yn parhau gyda gwasanaethau iechyd cyhoeddus ac atal. Roedd gwaith wedi bod yn digwydd gyda Chyngor Sir Ddinbych ac Awdurdodau Lleol eraill ar effaith gofal cymdeithasol.

### **Dashboard – Derbyn Cleifion yn yr Ardaloedd**

Roedd achosion o dderbyn cleifion i'r ysbyty ar frys oherwydd cyflyrau cronig yn lleihau'n raddol yn y ddwy ardal. Roedd tystiolaeth wedi dangos bod nifer y bobl oedd yn dechrau derbyn gofal preswyl a gofal nyrsio yn gostwng. Roedd hyn yn newyddion positif gan fod ymchwil wedi dangos bod pobl, yn enwedig pobl hŷn, yn dod yn ddibynnol yn gyflym iawn tra yn yr ysbyty neu ofal preswyl ac yn colli eu gallu a'u hyder i reoli tasgau byw o ddydd i ddydd.

Roedd achosion o dderbyn cleifion ac wedyn eu rhyddhau i'w preswylfa arferol yn cynyddu'n raddol. Roedd cefnogaeth wedi'i darparu gan y Gwasanaeth Gofal Rhyngol prif ffrwd yn gweithio mewn partneriaeth gyda Gofal Gwell yn y Cartref (Gogledd) ac Ailalluogi. Roedd hyn eto wedi bod yn gam positif gan olygu bod pobl yn cael cymorth ychwanegol i ddychwelyd i'r lefel galluogi a oedd i'w weld cyn iddynt gael eu derbyn i'r ysbyty.

### **Dashboard – Hyd Arhosiad**

Roedd hyd cyfartalog pob arhosiad yn gostwng yn y ddwy ardal yn gyffredinol, er bod cynnydd wedi'i weld yn 2011/ 12.

### **Sir Ddinbych – Datblygiadau**

Roedd gwaith yn parhau mewn perthynas â Gofal Gwell yn y Cartref. Roedd prosiect ar y gweill ar y cyd gyda Chyngor Sir Ddinbych a gweithwyr proffesiynol lechyd a Gofal Cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth o ddementia nad oedd diagnosis wedi'i wneud ac ystyriaethau wrth ofalu am bobl sy'n dioddef o ddementia. Roedd gwneud diagnosis cynnar o ddementia yn elfen o fewn y cynllun mawr.

Roedd y canlynol yn ddatblygiadau pellach ar draws ardal y canolbarth:-

- Integreiddio gofal rhyngol o fewn gwasanaethau craidd;
- Patholeg – Profi agos i gleifion;
- Adolygu rôl Rheolwyr Afiechydon Cronig

Byddai sylw'n cael ei roi hefyd i ddatblygu 3 Cynllun Tai Gofal Ychwanegol o fewn y sir er mwyn cynnal annibyniaeth bobl.

Mae PBC a Chyngor Sir Ddinbych wedi ymrwmo i brosiect, a gefnogir gan SSIA (Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol), i ddatblygu system wybodaeth a llwybr atgyfeirio a fyddai'n cefnogi pobl i gyflawni eu hanghenion eu hunain yn ogystal â sicrhau bod modd cael gafael ar gymorth mor rhwydd ag sy'n bosibl pe byddai angen cymorth arnyn nhw.

O safbwynt gwasanaethau offer, roedd cynlluniau yn eu lle i ddatblygu canolfan wedi'i staffio yn Ardal y Canolbarth / De fel canolfan loeren i'r brif storfa.

Hysbysodd SM:NL y Pwyllgor ei fod yn aelod o Dîm Arweinyddiaeth Ardal y Gogledd ac esboniodd mai Dr. Chris Stockport, Cadeirydd y Tîm oedd wedi cynhyrchu Adroddiad Blynyddol Ardal Gogledd Sir Ddinbych. (Byddai copi o'r adroddiad yn cael ei e-bostio i holl aelodau er gwybodaeth). Dyma'r adroddiad blynyddol cyntaf a gynhyrchwyd gan Dîm Ardal y Gogledd Sir Ddinbych a oedd wedi dechrau cyfarfod yn ffurfiol yn Awst 2011. Roedd y Tîm wedi ffurfio partneriaeth gydlynol yn gyflym iawn gydag ysbryd positif a brwdfrydig. Byddai'r ymadrodd "gweithio cydweithredol" yn crynhoi ymagwedd y Tîm i'r dim. Roedd cyfranwyr allweddol i wasanaethau ieched, cymdeithasol a'r trydydd sector o fewn Gogledd Sir Ddinbych wedi dangos parodrwydd ac ymrwymiad i gydweithio'n agos gyda'r ardal. Byddai hynny heb os yn arwain at ddatblygu gwasanaethau mewn modd a fydd yn gweithio orau i holl drigolion.

Roedd gan yr Ardal a'r Tîm Arweinyddiaeth nifer o swyddogaethau allweddol sef:

- I fwrw golwg dros holl wasanaethau cymunedol presennol
- I adnabod meysydd posibl ar gyfer symud gofal a gwasanaethau i leoliadau cymunedol o fewn Gogledd Sir Ddinbych a fyddai wedyn yn arwain at symudiadau mewn gofal
- I ddatblygu a chefnogi gweithio cydweithredol
- I sicrhau bod ffocws yn parhau ar atal a hybu ieched
- Bod yn gefnogol a blaengar.

Pwysleisiodd SM:NL pa mor bwysig oedd gweld y Gwasanaeth Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a'r trydydd sector yn cydweithio. Roedd pwynt mynediad sengl yn ddatblygiad pwysig.

Roedd nifer y cleifion a oedd yn cael mynediad i ofal preswyl wedi bod yn gostwng dros y 18 mis diwethaf, ond roedd yn bwysig bod yr Awdurdod Lleol a'r Gwasanaeth Iechyd yn cydweithio i helpu pobl o fewn eu cymunedau.

Roedd allgau cymdeithasol ac unigrwydd yn broblem, ond roedd Sir Ddinbych yn ffodus gan fod yno brosiectau ardderchog i gefnogi pobl a oedd yn unig. Roedd gwaith eisoes ar y gweill mewn perthynas â dementia, ac roedd is-grŵp wedi cael ei sefydlu. Byddai hyfforddiant staff pellach yn digwydd i godi mwy o ymwybyddiaeth o ddementia. Cafwyd dechrau gwych yn y 12 mis cyntaf i helpu pobl a oedd yn dioddef o unigrwydd a byddai hyn yn parhau dros y 12 mis nesaf.

Cafwyd trafodaeth bellach ac ymatebion i gwestiynau fel a ganlyn:

- Roedd SM:NL yn cyfarfod yn rheolaidd gyda'r Rheolwr Tîm i Ardaloedd Prestatyn a Rhyl a'r Metron Cymunedol. Roedd y Metron Cymunedol wedi cynnig cyfleusterau desg boeth yn Ysbyty Frenhinol Alexandra. Y brif broblem i Ganolbarth / De Sir Ddinbych oedd canfod lleoliad addas.
- Mewn perthynas â'r pwynt mynediad sengl, bu Sir Ddinbych yn llwyddiannus yn ei chais i ddod yn lleoliad arddangos i Raglen Bobl Hŷn SSIA ac mae cynnydd mawr wedi'i wneud. Erbyn Ebrill 2013, y bwriad yw cael canolfan yn ei lle.
- Mewn perthynas â phobl yn cael eu rhyddhau i'r gymuned, cadarnhaodd AS:PCSD nad oedd ganddi'r wybodaeth ynghylch y cynllun rhyddhau. Nododd SM:NL bod protocol rhyddhau wedi cael ei lansio yn ddiweddar.

- Byddai gwasanaethau cymdeithasol, staff therapi a meddygon teulu yn darparu gofal gwell yn y cartref. Ni fyddai staff asiantaeth gofal yn cael eu cyflogi.

Ar y pwynt hwn (3.15 p.m.), gadawodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Brian Blakeley y cyfarfod oherwydd bod ganddo apwyntiad oedd wedi'i drefnu o flaen llaw yn Y Rhyl, a chadeiriwyd gweddi y cyfarfod gan yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd Alice Jones.

Parhaodd yr ymatebion i'r trafodaethau:

- Roedd y mater o amseroedd aros i gael apwyntiad gyda meddyg teulu wedi'i godi. Roedd yna safonau sy'n nodi bod cleifion i fod i gael apwyntiad gyda meddyg teulu o fewn 24 awr o wneud cais. Trafodwyd hefyd y ffaith bod rhai meddygfeydd ar gau amser cinio neu ond ar agor am hanner diwrnod yn unig. PBC yn cyflenwi allan o oriau pan fydd meddygfeydd meddygon yn cau ar gyfer hyfforddiant staff.
- Mewn perthynas â rhoi triniaeth fewnwythiennol i gleifion yn eu cartrefi hwy eu hunain, dyma brosiect a oedd yn cael ei reoli ar draws Gogledd Cymru. Byddai cleifion fyddai'n derbyn y driniaeth yn eu cartrefi yn cael eu dewis yn ofalus. Byddai'r meddyg teulu yn arwain y gwasanaethau gofal gwell yn y cartref a byddai'r meddyg teulu hefyd yn pennu'r gofal a roddir. Gallai aelod o'r tîm gofal fod yn ymweld â'r claf 3 neu 4 gwaith y dydd i gynorthwyo yn y cartref fel y byddai'r meddyg teulu.
- Pe byddai claf yn cael ei ryddhau ac yna'n cael ei dderbyn eto am yr un cyflwr meddygol, yna byddai'r wybodaeth hon yn cael ei chofrestru fel derbyn claf o'r newydd, ond roedd nifer y cyfraddau ail-dderbyn hefyd yn cael eu cadw.
- Roedd bobl ag anghenion iechyd a gofal cymhleth yn cael sylw. Roedd lefel y cymhlethdod wedi bod yn cynyddu. Roedd angen strategaeth i'r dyfodol ar ba ofal preswyl fyddai ei angen yn y dyfodol. Roedd nifer y gwelyau Cartrefi Nyrso ar gael yng Ngogledd Sir Ddinbych wedi bod dan sylw yn ddiweddar. Cadarnhaodd SM:NL ei fod yn llunio adroddiad ynghylch argaeledd a darpariaeth cartrefi gofal a fyddai'n barod ymhen oddeutu pythefnos.

## **PENDERFYNWYD –**

- (i) *y dylai'r materion a godwyd gan y Pwyllgor eu cynnwys yn y diweddariad nesaf i'r Pwyllgor ar Weithio Ardaloedd yn Sir Ddinbych; a*
- (ii) *y dylai AS:PCSD ddosbarthu Adroddiad Blynyddol Ardal Gogledd Sir Ddinbych i holl Aelodau.*

## **6 IECHYD CYHOEDDUS – FFOCWS AR BLANT**

Nododd y Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus (D:PH) eu bod yn annog pobl dros 65 oed i fanteisio ar y brechiad rhag y fflw.

Cyflwynodd D:PH y Cofrestrydd Arbenigol mewn Iechyd Cyhoeddus (SR:PH) i roi cyflwyniad i esbonio'r prif broblemau sy'n berthnasol i lechyd Cyhoeddus o ran iechyd plant.

Roedd pob agwedd ar ddatblygiad dynol ar ei uchaf yn ystod beichiogrwydd ac o fewn tair blynedd gyntaf bywyd.

O safbwynt buddsoddiad mewn blynyddoedd cynnar, roedd cyfradd y budd economaidd ar fuddsoddiad yn uwch yn ystod y cyfnod cyn-ysgol hwn nag ar unrhyw adeg arall o fywyd dynol. Er gwaethaf hyn, roedd buddsoddiad yn aml ar ei isaf yn y blynyddoedd cynnar iawn sydd fwyaf allweddol yn nhermau datblygiad yr ymennydd. Argymhellwyd y dylai'r sawl sy'n llunio polisi fuddsoddi mewn plant ifanc, gan fod yr elw o ganlyniad i fuddsoddiad yn gryfach nag mewn oedolion isel eu sgiliau.

Dyma'r prif flaenoriaethau o ran iechyd mamau a phlant:

- Ysmygu
- Gordewdra
- Beichiogrwydd yn yr arddegau
- Lles meddwl/rhianta
- Imiwneiddio

Mae ysmygu yn ystod beichiogrwydd wedi bod yn gyfrifol am lawer o ddeilliannau amrywiol mewn babanod. Er enghraifft, ymhlith plant gyda phwysau geni isel (risg yn briodol i 27% o'r boblogaeth), roedd y mwyafrif oherwydd effeithiau mwg pan oeddynt o fewn y groth. Cymru sydd â'r gyfradd ysmygu uchaf ac mae 40% o'r merched sy'n ysmygu yn byw mewn ardaloedd difreintiedig.

Roedd gordewdra yn ystod beichiogrwydd hefyd yn risg i iechyd y baban. Sir Ddinbych sydd â'r gyfradd uchaf o BMI dros 35 yng Nghymru. Mae rhai o'r risgiau yn cynnwys risg uwch o fabanod yn cael eu geni'n farw, risg uwch o enedigaeth gynamserol, ayyb. Roedd y cyfraddau uchel o ordewdra yn y boblogaeth yn destun iechyd sydd angen mynd i'r afael ag ef.

Roedd lles meddwl a rhianta yn hynod o bwysig yn ystod dwy flynedd gyntaf bywyd. Roedd angen adnabod a chynorthwyo teuluoedd gyda phroblemau iechyd meddwl. Felly roedd lles meddwl yn faes pwysig o fewn gweithio partneriaeth.

Gwyddom fod y canlynol yn gweithio:

- Gweithwyr iechyd proffesiynol yn cynorthwyo pobl i roi'r gorau i ysmygu
- Asid Ffolig atodol
- Bwydo o'r fron – menter bwydo o'r fron DU.
- Rhianta positif ayyb.
- Imiwneiddio
- Gwella lles meddwl
- Dulliau atal cenhedlu cildroadwy hirbarhaol (LARC).

Gweithredoedd i leihau'r bwlch anghydraddoldeb:

- Gwella bwydo o'r fron
- Mynd i'r afael â gorlenwi

- Mynd i'r afael â thlodi
- Lleihau ysmegu
- Teuluoedd yn Gyntaf

Yn dilyn y cyflwyniad, cafwyd trafodaeth bellach:

- Roedd blaenoriaethau wedi'u hamlygu o fewn y cynllun mawr ac roedd datblygiadau penodol i flynyddoedd cynnar o fewn y Cynllun Gweithredu Blynyddoedd Cynnar.
- Mewn perthynas ag ysmegu, roedd y Bwrdd Iechyd yn edrych ar feichiogrwydd ac yn cyfarfod â bydwagedd, ymwelwyr iechyd a nyrsys ysgol i gynorthwyo. Roedd trafodaethau hefyd yn digwydd gyda Teuluoedd yn Gyntaf a oedd â briff ar gyfer blynyddoedd cynnar yn nhermau sut y gallan nhw ddarparu cymorth ynghylch effaith ysmegu. Roedd Cychwyn Iach Cymru yn tynnu sylw at ysmegu mewn ceir ac effeithiau hynny ar blant a phobl ifanc. Y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Hywyn Williams oedd cynrychiolydd Cyngor Sir Ddinbych ar Grŵp Cynghrair Tybaco Gogledd Cymru. Dyma grŵp aml-asiantaeth strategol lefel uchel sy'n gyfrifol am lywio gweithrediad lleol y Cynllun Gweithredu Rheoli Tybaco i Gymru a hyrwyddo materion rheoli tybaco yn y rhanbarth.
- Roedd cynllun cyn-ysgol iach ar waith. Roedd gwaith wedi digwydd gyda meithrinfeydd, gofalwyr plant a gwasanaethau gwybodaeth i rieni i ddelio gyda'r cysylltiad rhwng hylendid ac ysmegu.
- Roedd y Cynllun Ysgolion Iach ar waith o fewn Sir Ddinbych. Roedd cefnogaeth benodol ar gael i ysgolion uwchradd allu darparu gwybodaeth ynghylch tybaco.
- Roedd Dulliau Atal Cenhedlu Cildroadwy Hir-barhaol (LARC) yn fater pwysig ac roedd llawer o waith yn digwydd mewn ysgolion. Dyma fater sensitif ond roedd y gwaith yn mynd rhagddo'n dda.
- O fewn Sir Ddinbych, roedd 9% o deuluoedd yn byw mewn ardaloedd difreintiedig. Roedd ymwelwyr iechyd ynghyd â theuluoedd yn gyntaf a Chyngor Sir Ddinbych wedi arwain y ffordd o ran darparu cefnogaeth i deuluoedd.
- Roedd gordewdra yn cael ei drin fel blaenoriaeth lefel uchel oherwydd bod y tueddiad yn cynyddu. Nid oedd anorecsia yn cael yr un sylw gan fod llawer llai o bobl yn dioddef ohono a gan ei fod yn gyflwr iechyd yn hytrach na phroblem ffordd o fyw.
- Roedd pwysau geni isel yn cyfeirio at 5 ½ pwys (2 ½ kg) neu lai. Gweithio tuag at fabanod iach a oedd â phwysau geni rhwng 7-8 pwys.
- Mewn perthynas â monitro, roedd Llywodraeth Cymru wedi cynnal Strategaeth Mamolaeth Cymru Gyfan a byddai data'n cael ei gasglu cyn hir.

Gan fod yn rhaid i nifer o Aelodau adael y cyfarfod am 16.10 p.m. cytunwyd y dylid symud y ddwy eitem olaf (Eitemau 7 a 8) ar yr Agenda i Gyfarfod Craffu Partneriaeth yn y dyfodol.

**7 DIWEDDARIAD AR WASANAETHAU PLANT**

Symud yr eitem i gyfarfod yn y dyfodol.

**8 GWASANAETHAU IECHYD MEDDWL PLANT A'R GLASOED (CAMHS)**

Symud yr eitem i gyfarfod yn y dyfodol.

**Daeth y cyfarfod i ben am 4:20 p.m.**

## PWYLLGOR ARCHWILIO PARTNERIAETHAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd yn Ystafell Gynhadledd 1A, Neaudd Y Sir, Rhuthun, Dydd Iau, 20 Rhagfyr 2012 am 9.30 am.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Brian Blakeley (Cadeirydd), Joan Butterfield, Ann Davies, Meirick Davies, Alice Jones (Is-Gadeirydd), Pat Jones, Margaret McCarroll, Dewi Owens a/ac Bill Tasker

### HEFYD YN BRESENNOL

Corporate Director: Moderising and Wellbeing (SE), Head of Business, Planning and Performance (AS), North Wales Commissioning Hub Manager (VP), Partnerships and Communities Manager (DH), Performance Planning Officer (EH), Scrutiny Coordinator (RE), Democratic Services Officer (RAH) and Administrative Officer (CW).

#### 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Merfyn Parry a/ac Huw Williams

#### 2 DATGAN O FUDDIANT

Ni ddatganodd aelodau unrhyw fuddiannau personol neu niweidiol mewn unrhyw fusnes sydd wedi ei nodi i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

#### 3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

#### 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

(i) Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ar Ddydd Mawrth, 8 Tachwedd, 2012.

**PENDERFYNWYD** y dylid derbyn a chymeradwyo'r Cofnodion fel cofnod cywir.

(ii) Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ar Ddydd Mawrth, 5 Rhagfyr 2012.

**PENDERFYNWYD** y dylid derbyn a chymeradwyo'r Cofnodion fel cofnod cywir.

#### 5 Y CYNLLUN MAWR: DIWEDDARIAD AR BERFFORMIAD

Roedd copi o adroddiad gan y Swyddog Perfformio a Chynllunio, a oedd yn rhoi diweddariad ar berfformiad y Bwrdd Gwasanaeth Lleol (BGLI) a Phartneriaethau o ran cynnal y Cynllun MAWR: Rhan 1, 2011-14, ac 'Adroddiad Eithriadau Cryno', gyda phenodau manwl i bob un o wyth deilliant y Cynllun Mawr, wedi'u dosbarthu gyda'r papurau i'r cyfarfod.

Esboniwyd mai Cynllun MAWR Sir Ddinbych: 2011-14 (TBP), sy'n cael ei gynnal ar y cyd gydag asiantaethau partner, oedd y cynllun sy'n hyrwyddo gweithio Partneriaeth yn Sir Ddinbych. Roedd y BGLI yn atebol am Y Cynllun MAWR ac yn dal asiantaethau partner sy'n cynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC), y trydydd sector, Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chyngor Sir Ddinbych, yn gyfrifol am weithredu cynlluniau gweithredu i gyflawni'r Cynllun MAWR a'i wyth deilliant. Byddai gwerth gweithio partneriaeth wrth gyflawni'r Cynllun MAWR yn cael ei archwilio'n fwy manwl mewn adroddiadau blynyddol ac adroddiadau cau.

Roedd yr adroddiad yn darparu gwybodaeth eithriadau am bob deilliant a oedd yn galluogi Aelodau i ganolbwyntio ar fannau gwan. Roedd partneriaid hanner ffordd drwy'r amserlen ar gyfer cyflawni ac roedd angen canolbwyntio ar, a blaenoriaethu rhai elfennau er mwyn adnabod canlyniadau gwell i bobl yn Sir Ddinbych. Roedd meysydd yn cynnwys ymestyn cefnogaeth i bobl hŷn ar draws y Sir; ymdrin â'r sialensiau sy'n wynebu Canol Tref y Rhyl; gwella cefnogaeth i ofalwyr ifanc; rhwystro hunanladdiad a hunan-niweidio; amddiffyn pobl fregus rhag tân ac adolygu cyfraniad partneriaid i'r Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol. Esboniwyd bod nifer fach iawn o weithredoedd wedi'u cynllunio i ddechrau yn 2013 mewn perthynas â Deilliant 8. Esboniodd y Pennaeth Busnes, Cynllunio a Pherfformiad (HBPP) bod yna faterion problemus, cymhleth a hirfaith a fyddai'n cymryd cryn amser i ymdrin â hwy. Fodd bynnag, roeddynt ar hyn o bryd yn asesu os oedd cynnydd wedi'i wneud o ran ymdrin â'r problemau.

Mewn ymateb i gwestiynau gan Aelodau, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles (CD:MW) nad oedd y dangosyddion llwyddiant i ardaloedd gwledig ac iechyd meddwl a lles wedi bod yn ddigon cadarn. Roedd hyn wedi arwain at ddealltwriaeth wannach o effaith y Cynllun MAWR a chadarnhawyd y byddai'r dangosyddion yn cael eu hadolygu. Nid oedd rhai deilliannau wedi'u mesur yn ddigonol o fewn mecanweithiau cyflenwi presennol ac er nad oedd hyn wedi effeithio ar y cyflenwi, roedd y broses adrodd ar berfformiad wedi dioddef mewn rhai achosion, yn enwedig mewn perthynas â Deilliant 1. Byddai'r mater hwn yn cael ei ddatrys wrth i strwythurau partneriaethau strategol lleol, gan gynnwys Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles a Phartneriaeth Plant a Phobl ifanc, gael eu cadarnhau.

Nododd y Pwyllgor bwysigrwydd casglu data yn gywir ac amserol ynghyd ag adrodd o ansawdd er mwyn galluogi rheoli perfformiad a gwneud penderfyniadau partneriaeth yn effeithiol. Roedd mecanweithiau yn eu lle ar gyfer casglu tystiolaeth o effaith yr ymyriadau ar fywydau bobl, ac roedd gwaith ar y gweill i fapio adnoddau'r Partneriaeth.

Byddai manylion yn ymwneud â'r wybodaeth hon yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad blynyddol a'r adroddiad diwedd cynllun. Cadarnhawyd na fu unrhyw



rwystrau mawr o ran cyflenwi'r Cynllun MAWR ac roedd y Pwyllgor wedi derbyn sicrwydd bod swyddogion yn hyderus y byddai'r Cynllun Mawr yn cael ei gyflenwi.

Esboniodd Swyddogion bod y Cynllun Corfforaethol wedi'i alinio gyda'r Cynllun Mawr a bod synergedd rhwng saith Blaenoriaeth y Cynllun Corfforaethol ac wyth deiliant y Cynllun MAWR. Roedd BIPBC ar hyn o bryd yn cynnal ymgynghoriad dwys ar newidiadau i'r GIG a byddai'r rhain yn effeithio ar y Cynllun Mawr, yn enwedig o safbwynt modelau cyd-weithio, ffurfweddiad gwasanaeth a gofal iechyd yn lleol. Roedd y Cynllun MAWR yn ddogfen strategol bwysig a oedd yn sail i gyflenwi gwasanaeth o ansawdd mewn nifer o feysydd, a byddai unrhyw broblemau gyda pherfformiad o bosibl yn effeithio ar gyllid y Cyngor yn y dyfodol.

Cyfeiriodd y Rheolwr Partneriaethau a Chymunedau (PCM) at yr Adroddiad Eithriadau Cryno a rhoddodd grynoded cryno o'r 8 Deiliant. Rhoddodd grynoded fanwl o Ddeiliant 1: "Mae pobl hŷn yn arwain bywydau annibynnol a bodlon" fel enghraifft o grynhoed y wybodaeth a geir o fewn pob un o'r Penodau.

Ymatebodd y swyddogion i'r cwestiynau canlynol a godwyd gan Aelodau'r Pwyllgor:-

- Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan y Cadeirydd a'r Cynghorwyr M. McCarroll a M.LI. Davies, esboniodd y CD:MW a'r PCM bod materion yn ymwneud â phwysau geni isel yn y Sir a chyflawniad is gan blant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim, yn annerbyniol, ond eu bod yn gwella a bod cynlluniau wedi'u cyflwyno i ymdrin â'r problemau hyn. Cytunodd y swyddogion y dylid dosbarthu nodyn i Aelodau yn amlinellu sefyllfa gyfredol y Cyngor mewn perthynas â'r niferoedd sy'n cymryd prydau ysgol am ddim, gan amlinellu hefyd y camau rhagweithiol sy'n cael eu cymryd yn y maes hwn i sicrhau nad oedd plant a dderbynai'r prydau am ddim yn cael eu difrio.

- Ymatebodd y PCM i bryderon a godwyd gan y Cynghorydd Councillor J.A. Davies mewn perthynas â Deiliant 3 ac asesiad o gyflawniad gofalwyr ifanc. Esboniodd bod ymateb Llywodraeth Cymru yn cadarnhau bod y Mesur Gofalwyr wedi'i ystyried fel strategaeth ragweithiol a fyddai'n codi mwy o ymwybyddiaeth a chynyddu'r gwaith o adnabod gofalwyr ifanc a gofalwyr hŷn. Cadarnhawyd y byddai data mwy cadarn ar gael yn y dyfodol i adnabod gofalwyr ifanc a'u presenoldeb a chyflawniad ysgol, ac roedd mwy o gyfrifoldeb wedi'i roi ar lechyd i adnabod a chefnogi gofalwyr drwy'r Mesur Gofalwyr. Cyfeiriwyd at gylch gwaith Grŵp Strategaeth Gofalwyr Rhanbarthol a bod y mater o ddarparu cyllid heb ei ddatrys hyd yn hyn.

- Gofynnodd y Cynghorydd J. Butterfield am fanylion ynghylch nifer, atebolrwydd a chyfranogiad Aelodau o safbwynt y Byrddau a'r strwythurau a oedd wedi'u sefydlu. Cyfeiriodd hefyd at gyfleoedd drwy Ganolfannau Gofal Dydd, Diwygio Budd-daliadau ac effaith Cynllun Rhyl yn Symud Ymlaen mewn perthynas â'r effaith ar fusnesau a siopau ar Stryd Fawr Rhyl. Amlinellodd yr HBPP bwrpas yr adroddiad sef darparu gwybodaeth fanwl a chanllawiau ar gyfer cynnydd pellach trwy gydweithio gyda phartneriaid. Tynnodd sylw at bwysigrwydd y gwaith a wnaed trwy'r fforymau a strwythurau partneriaeth gwahanol a fyddai'n cynnwys Aelodau o'r Cyngor. Esboniodd yr HBPP y byddai adroddiad perthnasol i'r mater hwn yn cael ei

gyflwyno i'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol ac y byddai modd ei gyflwyno hefyd i'r Pwyllgor Craffu er ystyriaeth.

- Cyfeiriodd y PCM at Ddeiliant 4 a oedd yn ymdrin â nifer o'r pryderon a godwyd gan y Cynghorydd W.N. Tasker ynghylch digartrefedd, llety gwarchod a darpariaeth rhannu tai. Cyfeiriodd CD:MW at Brosiect Ymyrryd Argyfwng Rhannu Tai a'r gwaith a oedd yn cael ei wneud ynghylch goblygiadau posibl y Diwygiadau Lles a'r goblygiadau o ran budd-daliadau i bobl ifanc. Esboniodd bod Sir Ddinbych wedi bod yn rhagweithiol wrth ymdrin â materion yn ymwneud â digartrefedd; tynnwyd sylw arbennig at y gwaith a wnaed gan y Tîm Opsiynau Tai, y gefnogaeth a ddarparwyd i Brosiectau Tai Gwarchod, y cynllun lletya a'r Prosiect Night Stop. Cyfeiriodd yr HBPP at y Cynllun Corfforaethol gan gadarnhau bod "sicrhau mynediad at dai o ansawdd da" yn un o brif flaenoriaethau'r Cyngor i'r 5 mlynedd nesaf.

- Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd M.LI. Davies, rhoddodd y PCM fanylion o'r diffiniadau oed i bersonau sy'n cael eu hadnabod yn bobl hŷn a'r diffiniadau oed i Ofalwyr Ifanc. Cadarnhaodd y CD:MW bod ymwybyddiaeth ynghylch goblygiadau'r Diwygiadau Lles yn nhermau digartrefedd a materion tai, yn enwedig mewn perthynas â phobl ifanc.

- Esboniodd y Cynghorydd E.A. Jones bod nifer o'r materion a godwyd yn ymwneud â phroblemau hanesyddol, a phwysleisiodd bwysigrwydd gwerthoedd teuluoedd a'r angen i addysgu rhieni. Cyfeiriodd y Cynghorydd Jones at y tlodi a brofwyd mewn ardaloedd gwledig a'r angen i uno a chysylltu cymunedau gwledig. Esboniodd y PCM y byddai'r adroddiad Teuluoedd yn Gyntaf, sydd i'w gyflwyno i'r Pwyllgor yn Ionawr 2013, yn ymdrin â nifer o'r materion a godwyd mewn perthynas â'r ffocws ar y teulu.

- Cyfeiriodd y Cynghorydd M. McCarroll at lwyddiant y Prosiectau 'Y Dyfodol'/The Future, sy'n darparu llety diogel dros dro i bobl ifanc digartref sydd arnynt angen gwasanaethau cysylltiedig â thai. Nod y Prosiect oedd galluogi unigolion i gael gafael ar swydd neu hyfforddiant ac yna symud i lety parhaol er mwyn byw'n annibynnol.

- Rhoddodd y CD:MW ymateb manwl i gwestiynau gan y Cynghorydd J. Butterfield mewn perthynas â chyfrifoldebau cyflenwi a darpariaeth ariannu'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol a'r Byrddau Aml Asiantaeth. Pwysleisiodd yr HBPP bod yr adroddiad yn rhoi manylion ar y gweithgaredd sy'n digwydd ar hyn o bryd, a chadarnhaodd ei fod yn rhagweld bod modd gwella'r ddarpariaeth gwasanaeth trwy weithio partneriaeth a thrwy fabwysiadu ymagwedd gydlynol a fyddai'n defnyddio'r adnoddau sydd ar gael.

Yn dilyn trafodaeth fer:-

**PENDERFYNWYD** – bod y Pwyllgor:-

(a) yn derbyn ac yn nodi cynnwys yr adroddiad;

(b) yn cytuno y dylid cyflwyno adroddiad cynnydd pellach i'r Pwyllgor ymhen chwe mis, ac yn

(c) *derbyn adroddiad gan y Pennaeth Busnes, Cynllunio a Pherfformiad yn amlinellu cyfansoddiad ac aelodaeth holl Fyrddau Rhaglen a Phrosiect y mae'r Cyngor yn eu cynnal neu'n cyfranogi ynddynt, eu strwythurau ariannu, aelodaeth ac elfennau'r holl Gynlluniau a Strategaethau y maen nhw'n gyfrifol am eu cyflenwi.*

## **6 CANOLFAN GOMISIYNU LLEOL AR GYFER LLEOLIADAU COST UCHEL, NIFER ISEL**

Roedd copi o adroddiad gan Reolwr Canolfan Gomisiynu Gogledd Cymru, a oedd yn rhoi gwybodaeth ynghylch gweithrediad Canolfan Gomisiynu Gogledd Cymru, wedi'i ddsbarthu gyda'r papurau i'r cyfarfod.

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles yr adroddiad a oedd yn rhoi diweddariad ar ddatblygiad a gweithrediad Canolfan Gomisiynu Gogledd Cymru (NWCH) ar gyfer lleoliadau gofal cymdeithasol, a gofal iechyd ac addysg gartref. Roedd trosolwg wedi'i gynnwys fel Atodiad 1 i'r adroddiad.

Esboniodd Rheolwr Canolfan Gomisiynu Gogledd Cymru (NWCHM) bod y NWCH yn brosiect cydweithredol rhwng 6 Cyngor Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd PBC, a oedd wedi'i sefydlu ar sail Achos Busnes Llawn. Roedd y NWCH yn cwmpasu gwasanaethau plant ac oedolion, mewn partneriaeth gyda'r GIG, ac yn cael ei arwain gan Sir Ddinbych. Roedd yn atebol i Fwrdd Rheoli a gadeiriwyd gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles.

Rhoddodd y NWCHM grynodedb o bedair prif swyddogaeth y NWCH sef:-

- Sicrhau gwerth am arian gyda lleoliadau cost uchel sydd eisoes ar fod.
- Chwilio am leoliadau newydd trwy broses dryloyw a sicrhau gwerth am arian.
- Monitro ansawdd gwasanaethau.
- Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu'r farchnad mewn ymgais i sicrhau bod gwasanaethau yn gallu cyflenwi'r galwad sydd ar hyn o bryd ac unrhyw alwadau i'r dyfodol.

Roedd y NWCH wedi datblygu systemau a phrosesau sylfaenol i'w galluogi i weithio'n effeithiol. Roedd amser wedi'i dreulio ar gyfarfod timau gweithredol yr holl bartneriaid i sicrhau bod rôl y NWCH yn cael ei ddeall a bod newidiadau mewnol yn digwydd i sicrhau hynny. Roedd copi o'r rhaglen waith wedi'i gynnwys fel Atodiad 2 i'r adroddiad.

Roedd arbedion ariannol blynyddol o £298,000 wedi'u gwneud a oedd yn cynnwys arbediad o £20,000 i Sir Ddinbych, ynghyd ag osgoi costau o £27,000 ar draws y rhanbarth. Ymhellach, cafwyd arbediad blynyddol £209,000 yn codi o drafodaethau ynghylch lleoliadau gofal cartref Anabledd Dysgu. Cadarnhawyd mai £12,615 oedd cyfraniad y Cyngor at gost cynnal blynyddol NWCH.

Hysbyswyd aelodau bod y NWCH wedi chwilio am 51 lleoliad rhwng Awst a Thachwedd 2012. Roedd gwaith pellach ar y gweill gan gynnwys datblygu Fframwaith Darparwyr Cymeradwy rhanbarthol i leoliadau preswyl plant, a

fframwaith monitro ansawdd i wasanaethau oedolion. Yn dilyn datblygiad y Fframwaith, roedd gan y Swyddog Monitro Ansawdd nawr raglen o ymweliadau i'w cynnal ar ran Sir Ddinbych.

Cadarnhaodd y NWCHM bod y NWCH wedi cyfrannu at wireddu Blaenoriaethau Corfforaethol Sir Ddinbych a byddai'n helpu i sicrhau bod y Cyngor yn sicrhau gwasanaethau o ansawdd da a gwerth am arian. Roedd Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn rhagweld bod modd sicrhau arbedion ariannol o £25k eleni a £100k yn y flwyddyn nesaf. Mewn ymateb i gwestiynau ynghylch y ffaith nad oedd y matrices risg a baratowyd i'r Bwrdd Rheoli wedi'i gymeradwyo, esboniwyd bod y matrices risg yn gysylltiedig gyda'r achos busnes llawn a chadarnhawyd nad oedd unrhyw risgiau mawr ac mai mater o fân newidiadau yn unig ydoedd.

Bu ymgynghoriad gyda'r holl bartneriaid ar y Busnes Achos Llawn ac roedd y NWCH ar hyn o bryd yn dechrau ymgynghori gyda Darparwyr ar ddatblygiadau arfaethedig. Cytunodd Aelodau y dylai'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau yn achlysurol fonitro a gwerthuso effeithiolrwydd y Ganolfan o ran comisiynu gwasanaethau o ansawdd a sicrhau gwerth am arian.

Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd P.M. Jones, cadarnhaodd y NWCHM bod 30 o ddarparwyr ar hyn o bryd, a 9 ohonynt yng Ngogledd Cymru, a ddefnyddiwyd ar gyfer lleoliadau plant. Esboniodd bod plant wedi'u lleoli mewn ardaloedd cyfagos i Ogledd Cymru, Gogledd Orllewin Lloegr a mannau eraill yn y DU. Fodd bynnag, roedd nifer y lleoliadau wedi gostwng yn sylweddol yn ystod y 2-3 mlynedd diwethaf. Rhoddodd swyddogion amcangyfrif o gostau sy'n gysylltiedig â'r math hwn o leoliadau ac anghenion a gofynion y defnyddwyr gwasanaeth. Esboniwyd bod cysylltiadau yn cael eu datblygu gyda chyrrff comisiynu eraill i gynorthwyo gyda'r nod o sicrhau y gwerth am arian gorau.

Ymatebodd y NWCHM i faterion a godwyd gan y Cynghorydd M.LI. Davies a rhoddodd fanylion o'r broses adolygu a fabwysiadwyd mewn perthynas â'r gwasanaeth a'r cyfleusterau a ddarperir o ran lleoliadau. Cadarnhaodd bod yna achosion lle nad oedd anghenion iaith Gymraeg lleoliadau Cymraeg eu hiaith tu allan i'r sir yn cael eu cyflawni'n llawn bob amser. Esboniodd y byddai'n rhaid asesu anghenion y defnyddiwr gwasanaeth ymhob achos, ond na fyddai'n bosib mewn rhai achosion cyflawni'r holl anghenion a ddaeth i'r amlwg.

Cyfeiriodd y CDMW at y broses gydweithredu ac esboniodd bod y gwaith a wnaed hyd yma wedi bod yn addawol iawn yn nhermau'r arbedion a sicrhawyd, y monitro ansawdd a'r perthnasoedd oedd yn cael eu datblygu trwy weithio partneriaeth.

Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd J. Butterfield, amlinellodd y NWCHM y broses a fabwysiadwyd gan y NWCH i ymdrin â materion cyllidebol drwy'r gyllideb wrth gefn. Roedd yr NWCH yn cynorthwyo wrth sicrhau y gwerth a'r ansawdd gorau wrth drefnu lleoliadau a rhoddwyd manylion i'r Pwyllgor o'r broses ariannu ar gyfer lleoliadau y tu hwnt i'r Sir. Cadarnhawyd bod y NWCH yn gweithio'n agos gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (CSSIW), a oedd yn cael ei chynrychioli ar y Grŵp Rheoli Ansawdd Rhanbarthol. Darparwyd manylion o'r rolau yn nhermau cyfrifoldebau arolygu a materion ansawdd i Aelodau. Mewn ymateb i gais gan y Cynghorydd Butterfield, cytunwyd y dylid cynnwys eitem

yn ymwneud â chostau rhaglen gofal preswyl ym mlaen-raglen waith y Pwyllgor. Esboniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles y byddai'n cadarnhau dyddiad ar gyfer cyflwyno'r adroddiad yn dilyn ymgynghoriad gyda'r Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Busnes.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, cytunodd Aelodau y dylid cynnwys adroddiad diweddarau pellach mewn perthynas â chynnydd Canolfan Gomisiynu Gogledd Cymru yn y Blaen-raglen waith i'w gyflwyno ymhen chwe mis. Yn dilyn cais gan y Cynghorydd E.A. Jones, cytunwyd y dylai'r adroddiad hefyd gynnwys manylion ynghylch cwmpasu lleoliadau dementia cost uchel.

Yn dilyn trafodaeth fer:-

**PENDERFYNWYD** – bod y Pwyllgor:-

(a) yn derbyn ac yn nodi cynnwys yr adroddiad.

(b) yn cytuno y dylid cynnwys adroddiad pellach ar gynnydd Canolfan Gomisiynu Gogledd Cymru, gan gynnwys manylion ynghylch cwmpasu lleoliadau dementia cost uchel, yn y blaen-raglen waith, i'w gyflwyno ymhen chwe mis, ac

(c) y dylid gofyn am adroddiad ar gost darpariaeth Gofal Preswyl fel rhan o'r blaen-raglen waith.

## **7 RHAGLEN WAITH CRAFFU**

Roedd copi o adroddiad y Cydlynnydd Craffu yn gofyn i'r Pwyllgor adolygu ei Flaen-raglen Waith Drafft ac a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar faterion perthnasol, wedi'i ddisbarthu gyda'r papurau i'r cyfarfod. Roedd Blaen-raglen Waith y Cabinet wedi'i chynnwys fel Atodiad 2 i'r adroddiad. Roedd tabl yn crynhoi penderfyniadau diweddar y Pwyllgor ynghyd â gwybodaeth i aelodau ar y cynnydd a wnaed wrth eu rhoi ar waith, ynghlwm fel Atodiad 3 i'r adroddiad.

Hysbyswyd aelodau y byddai'r Pwyllgor Craffu Cymunedau, o fewn ei gylch gwaith, yn ystyried adroddiad ar Brosiect y Rhyl yn Symud Ymlaen ar 17 Ionawr 2013, a bod croeso i unrhyw rai nad oedd yn aelod o'r pwyllgor i fynychu.

Fel rhan o drefniadau craffu'r Cyngor, mae'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion (SCVCG) yn gweithredu fel Pwyllgor cydlyn. Cyfarfu'r Grŵp ar 13 Rhagfyr 2013, gan ystyried cais i drefnu ymweliadau mewn perthynas â'r Cynllun Byw Cymunedol. Cytunodd y Grŵp y dylid ymgymryd â'r ymweliadau gan fabwysiadu fformat tebyg i'r ymweliadau rota a wneir â Sefydliadau Gofal Cymdeithasol ar hyn o bryd. Byddai gwahoddiadau yn cael eu hanfon i'r Aelod Arweiniol, yr Eiriolwr Gofal Cymdeithasol perthnasol ac Aelod(au) Lleol y Ward dan sylw.

Ar ôl ystyried item yn ymwneud â'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol gan y Pwyllgor Craffu Partneriaethau, ym Medi 2012, roedd y Pwyllgor wedi gofyn i'r SCVCG benderfynu pa Bwyllgor ddylai archwilio'n fanwl y mater o broblemau gwrthgymdeithasol cysylltiedig ag alcohol yng nghanol trefi. Roedd y Grŵp wedi dod i'r farn bod yr eitem hon o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Craffu Partneriaethau gan mai'r corff hwn yw Pwyllgor Craffu Trosedd ac Anrhefn ddynodedig y Cyngor. Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd E.A. Jones, esboniwyd bod y mater

hwn yn effeithio ar y Sir gyfan ac nid yn unig i Rhyl. Cytunodd Aelodau y dylai'r Cydlynnydd Craffu, cyn ystyried y mater ymhellach, gysylltu gyda'r swyddogion perthnasol ynghylch graddfa'r broblem ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ym mis Ionawr.

Esboniodd y Cydlynnydd Craffu bod y mater o Gamerâu Cylch Cyfyng wedi'i ystyried gan y SCVCG, a'u bod wedi ad-drefnu'r eitem hon i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ei thrafod ym Mawrth neu Ebrill 2013.

Yn dilyn cais gan y Cyngorydd D. Owens, roedd y Cydlynnydd Craffu wedi cysylltu gyda'r Uwch Beiriannydd: Rheoli Risg Llifogydd ynghylch yr adroddiad ar yr Ardaloedd mewn Perygl o Lifogydd o fewn Sir Ddinbych, a oedd ym Mlaen-raglen Gwaith y Pwyllgor ar gyfer Ebrill 2013. Esboniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles bod nifer o adroddiadau yn cael eu llunio ar hyn o bryd ar y llifogydd a ddigwyddodd yn Nhachwedd 2013 yn Llanelwy a Rhuthun, a bod ymchwiliad annibynnol yn cael ei gomisiynu. Yn ychwanegol at yr adroddiad ar yr Ardaloedd mewn Perygl o Lifogydd o fewn Sir Ddinbych sy'n amlinellu'r cyfrifoldeb statudol cyffredinol o ran rheoli risg llifogydd, cytunodd Aelodau y dylid cynnwys adroddiad mewn perthynas â'r digwyddiadau diweddar yn ymwneud â llifogydd yn y Blaen-raglen Waith ar gyfer cyfarfod Ebrill 2013. Cytunodd y Pwyllgor hefyd y dylid gwahodd Meic Davies, Rheolwr Risg Llifogydd Rhanbarthol ac arbenigwr Cynllunio o Asiantaeth yr Amgylchedd i fynychu'r cyfarfod.

Bu'r Aelodau yn ystyried Blaen-raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer Ebrill 2013, a chytunwyd y dylid ad-drefnu'r eitemau busnes ynghylch "Lle yn yr Uned Gwarchod Oedolion Bregus" a "Potensial ar gyfer Cydweithredu i ddarparu Gofal yn y Cartref yn ardaloedd gwledig y Sir" a'u cynnwys ar ddyddiad arall.

***PENDERFYNWYD*** – yn amodol ar yr uchod, bod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau yn cymeradwyo'r Blaen-raglen Waith fel y'i nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

## **8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR**

Ni chafwyd unrhyw adroddiadau gan gynrychiolwyr y pwyllgor ar fyrddau a grwpiau amrywiol y Cyngor.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.35 y.p.

<b>Adroddiad i:</b>	<b>Y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau</b>
<b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>	<b>31 Ionawr 2013</b>
<b>Aelod Arweiniol / Swyddog:</b>	<b>Aelod Arweiniol dros Addysg / Pennaeth Addysg</b>
<b>Awdur yr Adroddiad:</b>	<b>Pennaeth Addysg</b>
<b>Teitl:</b>	<b>Y cynnydd hyd yn hyn gyda sefydlu a rhedeg RSEIS (Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol) a manteision ei sefydlu hyd yma</b>

---

## **1. Ynghylch beth mae'r adroddiad?**

- 1.1 Y cynnydd hyd yn hyn wrth sefydlu a rhedeg Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol (RSEIS) a manteision ei sefydlu hyd yma.

## **2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?**

- 2.1 Cyflwyno gwybodaeth ynghylch, ac ystyried y cynnydd hyd yn hyn, o sefydlu'r Gwasanaeth newydd.

## **3. Beth yw'r Argymhellion?**

- 3.1 Fod y Pwyllgor yn ystyried yr wybodaeth a'r sylwadau a gyflwynwyd ar y cynnydd hyd yn hyn wrth sefydlu'r gwasanaeth newydd.

## **4. Manylion yr adroddiad**

- 4.1 Ddydd Mawrth 21 Chwefror 2012, cyflwynodd y Cynghorydd E W Williams adroddiad i'r Cabinet yn gofyn am gymeradwyaeth i Achos Busnes Llawn ar gyfer Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion newydd (RSEIS) ar draws chwe Awdurdod Gogledd Cymru. (Atodiad 1)

Penderfynwyd y dylai'r Cabinet gymeradwyo'r Achos Busnes Llawn ar gyfer y gwasanaeth newydd; nod y gwasanaeth newydd yw: sefydlu Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol (RSEIS) yn atebol i, ac yn ymgymryd â chyfrifoldebau statudol ar ran, y chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru o ran eu dyletswyddau i fonitro, herio, darparu gwasanaethau cefnogi ar gyfer datblygu proffesiynol parhaus a rheoli ysgolion, ac, yn ogystal, ddarparu gwasanaethau y gall ysgolion a'r Awdurdodau Lleol eu comisiynu.

Bydd y Gwasanaeth yn ganolog i Wella Ysgolion yng Ngogledd Cymru. Bydd yn bwerdy a fydd yn datblygu ymarfer da ar draws y rhanbarth. Bydd yn sicrhau cysondeb wrth herio a chefnogi ysgolion ar draws y chwe sir, gan arwain ein plant a'n pobl ifanc i gyrraedd eu potensial.

Mae'r Achos Busnes Llawn (Atodiad 2) yn dangos y bydd y rhaglen yn cael ei darparu mewn pedair rheng ryng-ddibynol:-

- Bydd Rheng 1 yn darparu Strategaeth Ranbarthol Gogledd Cymru ar gyfer codi safonau er mwyn cyfarfod â'r Fframwaith Effeithlonrwydd Ysgolion Cenedlaethol.
- Bydd Rheng 2 (*canolbwynt yr Achos Busnes Llawn hwn*) yn darparu'r Gwasanaeth newydd yng Ngogledd Cymru i gefnogi Rheng 1.
- Bydd Rheng 3 yn darparu Strwythur System Gwybodaeth Reoli (Capita ONE) i gefnogi Rhengoedd 1 a 2.
- Bydd Rheng 4 yn darparu 'Gwaith Cefnogi' i gefnogi Rhengoedd 1 a 2 (Awdurdod Gwesteia)

Cytunwyd ar yr amserlen ar gyfer gweithgaredd Rheng 2, a fydd yn darparu'r Gwasanaeth, fel rhan o'r Achos Busnes Llawn (2012 / 2013):

Chwef / Mawrth - Achos Busnes Llawn i'r Cabinet / Byrddau Gweithredol

Mawrth - Cytuno ar Awdurdod Gwesteia ar gyfer y Gwasanaeth

Ebrill - Penodi'r Prif Swyddog

Medi - Penodi Arweinwyr y Systemau a'r Staff Cefnogi  
- Sefydlu Cyd Bwyllgor

Tach - Mawrth - Hyfforddiant tîm, diwylliant, sefydlu, sgiliau i staff a benodir i'r Gwasanaeth

Ebrill - Staff yn trosglwyddo i'r Gwasanaeth, yn cael eu cyflogi gan yr Awdurdod Gwesteia.

#### 4.2 Cynnydd yn erbyn y rhaglen weithredu:-

- Mae'r Cabinet / Byrddau Gweithredol wedi cymeradwyo'r Achos Busnes Llawn.
- Mae Gwynedd wedi'i benodi fel Awdurdod Gwesteia'r Gwasanaeth.
- Roedd y broses recriwtio gychwynnol ar gyfer y swydd o Brif Swyddog yn aflwyddiannus. Cafodd Prif Swyddog dros dro ei benodi ym mis Ebrill 2012 yn unol â'r rhaglen. Mae'r broses recriwtio / penodi i'r swydd barhaol ar y gweill ar hyn o bryd a disgwylir y bydd y broses wedi'i chwblhau erbyn canol mis Chwefror.
- Mae dau ddeg tri allan o'r tri deg o swyddi Arweinwyr y Systemau wedi'u llenwi, gan gynnwys y tair swydd Uwch Arweinydd Systemau. Mae proses ar y gweill i recriwtio i'r swyddi sy'n weddill. Rhaid i bob Arweinydd Systemau fynychu diwrnod hyfforddiant cenedlaethol a darperir cyfleoedd hyfforddiant pellach.



- Mae'r holl staff Gwella Ysgolion sy'n gweithio fel Swyddogion Cyswllt mewn ysgolion ar draws Gogledd Cymru wedi dechrau gweithio o fewn fframwaith gyffredin i sicrhau cysondeb a pharhad mewn dulliau.

#### 4.3 **Gwaith ar y gweill a'r camau nesaf:-**

- Mae'r Cytundeb Rhyng Awdurdod yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd.
- Mae'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd.
- Ar ôl cwblhau'r Cytundeb Rhyng Awdurdod, sefydlir y Cyd Bwyllgor.
- Ym mis Ebrill, bydd staff yn trosglwyddo i'r Gwasanaeth, yn cael eu cyflogi gan yr Awdurdod Gwesteia, a'r Gwasanaeth yn gweithredu'n llawn.

### 5. **Sut y bydd y penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Mae'n cyfrannu at y flaenoriaeth: Gwella perfformiad mewn addysg ac ansawdd ein hadeiladau ysgolion.

### 6. **Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Cyfanswm y gost ar hyn o bryd o ddarparu'r gwaith gwella ysgolion ymgynghorol, statudol, ar draws y chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru yw £5.1 miliwn. Mae hynny gyfystyr â chost o £51 y disgybl ar gyfartaledd. Cost y Gwasanaeth newydd yw £3.5 miliwn, sy'n gyfystyr â chost o £35 y disgybl ar gyfartaledd (o gymharu â £51 ar hyn o bryd).

6.2 Mae'r holl ffactorau wedi'u hystyried ac mae arbedion rhanbarthol o £882,000 (20%) yn bosibl a gellid eu hail fuddsoddi mewn Addysg, neu'u rhyddhau fel arbedion arian parod, yn dibynnu ar anghenion pob Awdurdod Lleol.

### 7. **Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb a wnaed ar y penderfyniad?**

7.1 Y prosiect:-

- yn cefnogi canolbwynt y Strategaeth Gymunedol ar ddatblygu **plant a phobl ifanc**;
- yn ymdrechu i ddarparu **cyfle cyfartal** a bod pob plentyn yn derbyn yr addysg orau bosibl mewn ysgolion ar draws Gogledd Cymru; ac
- yn canolbwyntio ar ddarparu **dewisiadau cynaliadwy** ar gyfer addysg sy'n cyfarfod ag anghenion plant a phobl ifanc ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

### 8. **Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gydag Archwilio ac eraill?**

8.1 Ymgynghorwyd â Rhanddeiliaid allweddol.

### 9. **Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Amherthnasol

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Mae Cofrestr Risg llawn wedi'i datblygu yn nogfennau'r prosiect.

Mae'r Tŷm Prosiect a Chonsortiw m Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru Gogledd Cymru wedi, ac yn dal i, nodi risgiau (mewn cysylltiad â chydweithwyr ar draws cylch gorchwyl y prosiect) a bydd y rhain yn cael eu hadolygu fel eitem sefydlog ar yr agenda ar gyfer elfen y prosiect mewn cyfarfodydd rheolaidd Consortiw m Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru, Gogledd Cymru.

**11. Yr Hawl i Benderfynu**

11.1 Mae Erthygl 6.3.2 o Gyfansoddiad y Cyngor yn datgan y gall pwyllgorau archwilio sicrhau fod gweithrediadau a nodir mewn cynlluniau gweithredu'n cael eu gweithredu.

**Swyddog Cyswllt:**  
Pennaeth Addysg  
Ffôn : 01824 708006



<b>REPORT TO:</b>	Cabinet
<b>PORFOLIO HOLDER:</b>	
<b>DATE:</b>	21 February 2012
<b>LEAD OFFICER:</b>	
<b>CONTACT OFFICER:</b>	Danielle Edwards – Project Manager
<b>SUBJECT:</b>	Regional School Effectiveness and Improvement Service Project(RSEIS) - Full Business Case
<b>WARD</b>	County wide

## 1. PURPOSE OF THE REPORT

To seek Members comments on and scrutiny of, and Cabinets approval for, the Full Business Case for a new Regional School Effectiveness and Improvement Service, across the six North Wales Authorities.

## 2. EXECUTIVE SUMMARY

The project aims to establish a Regional School Effectiveness and Improvement Service(RSEIS) to be accountable to, and undertake the statutory responsibilities of, the six local North Wales Authorities in respect of the duties to monitor; challenge; provide support services for curriculum continued professional development and management of schools, and in addition provide services that can be commissioned by schools and local authorities.

The RSEIS will be central to school improvement in North Wales. It will be a powerhouse to drive good practice across the region. It will ensure a consistency of challenge and support for schools across the six counties leading to our children and young people fulfilling their potential.

In September 2011, the draft OBC was presented to all six Executive Boards who resolved:

- that the OBC should be widely consulted upon with stakeholders from October 2011;
- to establish a regional service by September 2012, subject to the FBC; and
- that the recruitment process for the appointment of a Chief Officer can begin, with the appointment to take place once the FBC has been adopted in all six authorities.

The FBC takes account of the issues highlighted by the six North Wales Cabinets / Executive Boards when approving the OBC for consultation and by the stakeholders during the consultation:

- the case for change and the vision for the new service needs to be much stronger;
- the quality of the new service for each council as well as the region must be addressed more explicitly;

- the governance and accountability model must be resolved;
- the pensions deficit issues, including the additional complication of Cynnal must be addressed;
- the model must be able to demonstrate how it will service the diverse cultural and linguistic needs of the region;
- the model must be able to demonstrate how it will drive standards; and
- the financial and HR issues, including possible impact on staff needs to be set out.

### **3. RECOMMENDATION(S)**

That Scrutiny members support and recommend that **Cabinet / Executive Board** approve the Full Business Case for a new Regional School Effectiveness and Improvement Service.

## **4. BACKGROUND INFORMATION**

### **4.1 Key Developments for the FBC**

- A clear vision has been developed in consultation with stakeholders.
- The current position in respect of Standards, Welsh Language, Population and Schools is clearly explained.
- The educational (standards agenda) and financial (current spend) case for change is clearly explained.
- The governance arrangements for the new service are recommended as a Joint Committee with a Host Authority (*see section 4.2 of this report*).
- In order to deliver the six key functions, the FBC explains that programme will be delivered in four inter-dependant tiers:
  - Tier 1 will deliver the NW regional strategy for raising standards to meet the national School Effectiveness Framework.
  - Tier 2 (*the focus of this FBC*) will deliver the new NW RSEIS to support Tier 1.
  - Tier 3 will deliver the MIS Structure (Capita ONE) to support Tiers 1 and 2.
  - Tier 4 will deliver the 'Support Functions' to support Tiers 1 and 2 (Host Authority).
- The FBC explains how the new service will meet the linguistic and local needs of the schools and LAs.
- The full financial model has been developed which includes; the Cost of the RSEIS, Implementation Costs of the New Service, Leaving Costs, Cost per Local Authority.
- A HR model has been developed and set out in the FBC which includes; Key HR Timescale, Planning for Change, Roles available in the new RSEIS, TUPE Arrangements, Salary Ranges, Policies and Procedures.

## 4.2 Governance Arrangements

Based on the findings of the option appraisal, the recommendation by the Education and Other Related Services Board is that a 'Joint Committee with a Host Authority' is adopted as the governance model for the Regional School Effectiveness and Improvement Service, with the expectation that the model is reviewed as part of the post implementation review.

In the context of the regional service being developed, the main disadvantages (scoring 0 - does not meet the criteria) associated with a 'Company' model are in relation to:

- the pensions deficit (*see also 4.2.1 below*) - whilst both options will have a pensions deficit evaluation which will need to be paid back over a number of years, the contribution rate towards the past service deficit may be unaffordable due to a more restrictive pay-back arrangement as a company in its own right (based on an actuary evaluation on estimated data); and
- the ability to take advantage of VAT exemption - with a company limited by guarantee in this context, because the majority of its income will come from the provision of education and closely related services (exempt from VAT), it is not permitted to recover VAT on any purchases/overheads which relate to those services.

It was also recognised that:

- the initial set-up and ongoing costs relating to ICT for the service under a company model would be double that of a Joint Committee with a Host authority, requiring support to be procured in the private sector (there being a conflict of interest in the case of an LA providing this support);
- political buy-in would be more unlikely in the Company model when considering the potential personal liability for Directors of the company (although insurance should be taken out and indemnities given), and the potential conflict of interest between Members sitting as Directors versus Members sitting as Councillors; and
- staff buy-in would be more unlikely in the Company model with staff preferring an option where they remain employed by the LA and remain in the LGPS, and likely to result in opposition from staff and their unions due to perceived worries about pay, conditions, pensions etc.

### 4.2.1 Deciding on the Host Authority

In order to employ staff under the Joint Committee, the new RSEIS will need to use a Host Authority, which will be one of the six North Wales authorities.

Complimenting the 'employment' role, the Host Authority will also be responsible for providing HR, Finance and Legal support to the staff and the new service (Tier 2).

Expressions of interest to be the Host were invited from Local Authorities. Following careful consideration, the NW Chief Executives Group are by majority decision recommending Gwynedd as the RSEIS Host Authority.

#### **4.2.2 Pension Deficit**

Based on the recommendation of a 'Joint Committee with a Host Authority', the options for the *treatment* of the pension deficit evaluated for the regional service are:

**Option 1: Fully Funded Approach (the pension deficit remain with the current employer)**

- The overall pension deficit for the employer would remain unchanged.
- Existing employer could voluntarily pay amount of the pension deficit to the pension fund and crystallise the amount within the authority accounts, with regard to the staff transferring.
- If the existing employer chooses not to crystallise the amount this would be reflected within the next valuation of the pension fund. There would be fewer staff from which to recoup the deficit in contributions which could lead to a higher contribution rate for the employer.

**Option 2: Share of Deficit Approach (the pension deficit transfers to the new regional service)**

- The actuary for the pension fund would make a valuation with regard to the regional body to assess the required contribution rate to reflect both the future service contribution and the past service deficit

It is anticipated that all collaborative arrangements will use Option 2, and in this particular case Option 1 is not a viable option when we take account of the company Cynnal, who with Company status, has no obligation to retain the pensions deficit for staff transferring to a new service.

Therefore, the financial modelling for RSEIS has included the estimates on the basis of Option 2 with a 'Share of Deficit Approach', based on the spreading period normally allowed for a Local Authority (past service adjustment 'spread' over 20 years).

#### **4.3 Staffing the RSEIS**

- The RSEIS will be managed by a Chief Officer.
- The role of the System Leader will have a clear focus on leadership and management, and provide strategic leadership and management in Literacy & Numeracy and Curriculum (subject) areas.
- It is anticipated that there will be a requirement for 30 FTE System Leaders within the North Wales region.
- There will be a number of additional posts that will be available according to:
  - the number of staff (Home Team) each LA will require to support those functions that are not covered by the RSEIS nor the other 'LA School Improvement Teams'; and
  - additional commissioning from the RSEIS for System Leaders from either the LA or schools, through budgets or grants.

- The RSEIS will provide professional opportunities for Headteachers and Teachers to be seconded for short-term periods, ensuring that the Service can draw on the best practice from schools across the region.
- Schools will have the opportunity to strengthen and extend collaborative working across the region to collectively commission targeted support and share good practice.
- The Support Staff requirement will be 1 Business/Finance Manager, 7 Administrative Staff and 2 Translators.

#### **4.4 Timescale for the RSEIS (2012/2013)**

Feb / Mar	- FBC to Cabinets / Executive Boards
Mar	- Host Authority for the RSEIS agreed
Apr	- Appointment of the Chief Officer
Sept	- Appointment of the System Leaders and Support Staff - Joint Committee established
Nov - Mar	- Team, cultural, induction, skills training for the staff appointed to the RSEIS .
Apr	- Staff transfer to the RSEIS, employed by the Host Authority

## **5. CONSULTATION**

### **5.1 Findings of the Stakeholder Consultation on a Regional Service (March 2011)**

The findings of the *'Report on the Feasibility and implications of establishing a Regional School Effectiveness and Improvement Service for the six North Wales Local Authorities'*, indicate that such a service is feasible and would provide a key transformational development that could provide high quality provision and contribute to achieving improved outcomes for learners. It would also enable both schools and LAs to fulfil their statutory obligations.

In March 2011, individual Authority consultation meetings with relevant stakeholders within each authority were organised by the individual Directors/Chief Officers, with further reports to scrutiny committees and executive boards of the six LAs. In addition, consultation with relevant Focus Groups (with Headteachers; School Governors; Trade Unions), comprising of representatives from across the region were conducted by the Consortium Officer and the Independent Consultant. The subsequent Report found considerable support for the strategy; in many cases the establishment of a regional School Effectiveness and Improvement Service was welcomed; others recognised the drivers towards such a service and their impact. At the same time there was support for the implementation of the Option.

The ensuing decision of the Education and Related Services Regional Board was to proceed collaboratively and seek to establish a regional School Effectiveness and Improvement Service fit for future purpose, (in particular the implementation of SEF), that

builds on current strengths, and provides an integrated service across the region. This regional service will be owned by the six LAs and will operate as a separate entity under a joint commissioning framework. This will require the regional service to be professionally rigorous and focus on pedagogy, learning, and leadership in its dealing with schools; similarly, professional rigour will be required of schools and LAs. Such an approach will be crucial to the success and credibility of this development.

## **5.2 Findings of the Stakeholder Consultation on the RSEIS Outline Business Case (OBC) (October 2011)**

In September 2011, the draft OBC was presented to all six Executive Boards who resolved:

- that the OBC should be widely consulted upon with stakeholders from October 2011;
- to establish a regional service by September 2012, subject to the FBC; and
- that the recruitment process for the appointment of a Chief Officer can begin, with the appointment to take place once the FBC has been adopted in all six authorities.

Consultation on the OBC was carried out with stakeholders across the six authorities during October and November 2011. A full Consultation Plan for the OBC was developed and each Local Authority was provided with a 'Consultation Pack' which included a copy of the OBC, a generic presentation, an executive summary, discussion papers, a copy of the Consultation Plan, and a feedback form.

## **6. RESOURCE IMPLICATIONS**

### **6.1 Regional**

The current cost of delivering the existing statutory and advisory in-scope school improvement functions for each LA is £5.1m.

This has been adjusted to establish the influenceable spend that will provide a basis for building up the financial model by (i) £406k to reflect posts in-scope (>60%) at 100% cost and reduced by posts not in-scope (<60%) and (ii) £311k to reflect expenditure funded by grants. The influenceable spend is **£4.4m**.

The cost of the RSEIS is £3.5m, equating to an average cost per pupil of £35, (compared to £51 currently).

The cost of the New Regional Service compared to the influenceable spend identifies a potential overall regional saving of £882k (20%), which can be re-invested in Education, or released as a cashable saving, depending on the needs of each local authority.

### **6.2 Local**

The cost of the RSEIS to [LA Name] is £[enter amount]. This leaves a potential overall saving for [LA Name] of £[enter amount] (percent%).

The charging methodology selected to apportion the cost to each of the 6 LAs is based on the annual Welsh Government 'Indicator Based Allocation for Education Funding'. The



methodology takes the percentage for each LA (allocated for service components, Nursery and Primary school teaching, and Secondary school teaching) and applies it to the RSEIS. The formula includes factors to reflect pupil numbers, settlement threshold and the number of pupils eligible for free school meals.

## 7. RISK

A full Risk Register has been developed within the project documentation.

Risks have been and will continue to be identified by the Project Team (in association with colleagues across the remit of the project) and the NW ADEW Consortium, and reviewed as a standing item on the agenda for the project element of the regular NW ADEW Consortium meetings.

The Project Manager will actively manage Project Risks, and put in place a mechanism to ensure those allocated responsibility for mitigating risks are proactively working to ensure the mitigation. In order to facilitate this, the owners of risks are required to provide an update at regular intervals at the request of the Project Manager.

## 8. DRIVERS AND IMPLICATIONS

In relation to the national and regional context the relevant considerations are:

### National

- Transformation and Modernisation agenda – Welsh Government expectations (Thomas Report; Simpson Report)
- Emphasis on raising educational standards and performance
- Implications of School Effectiveness Framework
- Implementation of ESTYN's Common Inspection Framework
- Current deliberations on distribution of functions – local, regional and national
- Resource reductions – the need to provide system efficiencies

### Regional

- Limited capacity of some Local Authorities (LAs)
- Current patterns of provision are not fit for purpose and change is required
- Importance of relationships between LAs and their schools
- Impact of stakeholders
- Recognition and commitment to develop regional services and joint working across the 6 LAs
- Recognition of current strengths and faith in incremental development
- Commitment to regional school effectiveness and improvement service as the first stage towards a complete regional service

### 8.1 Links to Corporate Priorities/Plan [change to fit local LA plans]

Revitalising Our Community – RC2 *'We will make sure our children get the best educational and social start enabling them to take a fulfilled role in society'*.

Children and Young People's (Single) Plan:

- Core Aim 2, Priority Area 1 - *Raising Standards and Improving Performance in all Educational and Learning Settings*
- Core Aim 2, Priority Area 3 – *Pupils with Additional Learning/Support Needs*

- Core Aim 2, Priority Area 5 - *Conwy School Modernisation Agenda*

## 8.2 Assessment of impact on the Community Strategy, Equalities and Sustainability

The project:

- supports the focus of the Community Strategy towards the development of **children and young people**;
- strives to provide **equality of opportunity** for all children to receive the best possible education in schools across North Wales; and
- is focused on providing **sustainable options** for education that meets the needs of children and young people now and in the future.

## 9. REASON(S) FOR RECOMMENDATION(S)


To further the development of a regional School Effectiveness and Improvement Service that raises standards in our schools and meets the wider local and national agendas.

BACKGROUND PAPERS	LOCATION	WEBSITE INFO.
<i>Full Business Case – North Wales Regional School Effectiveness and Improvement Service</i>	Hard Copy Provided	

## Atodiad 2

### Achos Busnes Amlinellol

# Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol Gogledd Cymru



	Dyddiad	Enw	Teitl Swyddi	Nodiadau
1	13/06/2011	Danielle Edwards	Rheolwr Prosiect	Gweithio ar y Drafft 1af
2	28/06/2011	Danielle Edwards	Rheolwr Prosiect	Gweithio ar y Drafft 1af
3	30/06/2011	Rhian Evans	Arbenigwr Tîm Ariannol	Gweithio ar y Drafft 1af – Newidiadau i'r Agwedd Ariannol
4	01/07/2011	Danielle Edwards	Rheolwr Prosiect	Gweithio ar y Drafft 1af
5	04/07/2011	Danielle Edwards	Rheolwr Prosiect	Gweithio ar y Drafft 1af – Newidiadau GJ i'w Trafod
6	07/07/2011	Danielle Edwards	Rheolwr Prosiect	Newidiadau yn dilyn cyfarfod CCAC GC ar 6ed
7	11/07/2011	Danielle Edwards	Rheolwr Prosiect	Newidiadau i adlewyrchu atborth aelodau CCAC GC am fersiwn 6 a sylwadau noddwyr y prosiect.
8	12/07/2011	Danielle Edwards	Rheolwr Prosiect	Drafft llawn i'w gyflwyno i'r Bwrdd Rhanbarthol
9	19/07/2011	Danielle Edwards	Rheolwr Prosiect	Newidiadau yn dilyn atborth gan y Bwrdd Rhanbarthol ar 15/07/11
10	10/08/2011	Danielle Edwards	Rheolwr Prosiect	Newidiadau yn dilyn cyfarfod CCAC GC ar 9fed
11	15/08/2011	Danielle Edwards	Rheolwr Prosiect	Newidiadau yn dilyn cyfarfod gyda noddwyr y prosiect
12	02/09/2011	Danielle Edwards	Project Manager	Newidiadau yn dilyn atborth gan y Bwrdd Rhanbarthol ar 01/09/11
13	13/09/2011	Danielle Edwards	Project Manager	Small change to section 4 (ref 4.4 instead of 5.5) & addedd S151 as QAT at their request
14	03/10/2011	Danielle Edwards	Project Manager	Final version

## Cynnwys

	<b>Tud</b>
<b>1. Cyflwyniad</b>	<b>3</b>
1.2 Y Trefniadau Presennol	3
<b>2. Pam Mae Angen i Ni Newid - Y Cyd-destun Cenedlaethol a Rhanbarthol</b>	<b>4</b>
<b>3. Canfyddiadau'r Ymgynghoriad â Rhanddeiliaid ar Wasanaeth Rhanbarthol</b>	<b>5</b>
<b>4. Sut wasanaeth fydd yr un newydd?</b>	<b>6</b>
4.1 Nodau ac Amcanion Allweddol	6
4.2 Arfarniad o Opsiynau ar gyfer y Model Llywodraethu	7
4.2.1 Trefniadau Llywodraethu mewn perthynas ag Aelodau ac ALLau Unigol	8
4.3 Model ar gyfer Cyflenwi	8
4.3.1 Y Cyflenwad Staff	12
4.3.2 Y Manteision a Ragwelir yn sgil Gwasanaeth Rhanbarthol Newydd	13
4.3.3 Arbedion Posibl	13
4.4 Prosiectau Cyd-ddibynnol	14
4.4.1 Systemau Gwybodaeth Reoli Canolog	14
4.4.2 Adnoddau Dynol (AD)	14
<b>5. Rheoli'r Prosiect a Risgiau Cysylltiedig</b>	<b>15</b>
5.1 Rheolaethau a Llywodraethu'r Prosiect	15
5.1.1 Adrodd	16
5.2 Cynllun Prosiect	16
5.3 Strategaeth Rheoli Risg	16
5.4 Rheoli Newid / Trosglwyddo Staff (AD)	16
<b>6. Y Camau Nesaf</b>	<b>18</b>
6.1 Compact	18
6.2 Dyddiadau Allweddol	18
<b>Atodiadau</b>	
Atodiad 1 Diffiniadau o Wella Ysgolion	19
Atodiad 2 Chwe Swyddogaeth Allweddol Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol	22
Atodiad 3 Eglurhad ynghylch Modelau Llywodraethu	24
Atodiad 4 Drafft Enghreifftiol Manylion am yr Unigolyn ar gyfer Arweinydd Systemau	27
Atodiad 5 Amcanestyniad Ariannol	30
Atodiad 6 Cynllun Prosiect	34
Atodiad 7 Cofrestr Risg y Prosiect	36
Atodiad 8 Matrics Cyfrifoldeb a Chyfathrebu	41

## 1. Cyflwyniad

Comisiynwyd yr Achos Busnes Amlinellol hwn gan y *Bwrdd Rhanbarthol Addysg a Gwasanaethau Eraill Cysylltiedig* o fewn *Bwrdd Arwain Gogledd Cymru* sy'n dymuno sefydlu un gwasanaeth effeithiolrwydd a gwella ysgolion rhanbarthol ar gyfer y 6 o Awdurdodau Lleol (ALLau) yng Ngogledd Cymru.

Pwrpas yr Achos Busnes Amlinellol hwn yw:

- Rhoi amlinelliad o'r trefniadau presennol
- Egluro pam bod angen i ni newid
- Rhannu canfyddiadau'r ymgynghoriad â rhanddeiliaid ar wasanaeth rhanbarthol
- Amlinellu'r weledigaeth ar gyfer y gwasanaeth rhanbarthol newydd
- Rhannu'r arfarniad o opsiynau ar fodolau Llywodraethu gwasanaeth rhanbarthol newydd, a'r model cyflenwi ar gyfer y gwasanaeth hwnnw.
- Rhannu manteision posibl y gwasanaeth rhanbarthol newydd
- Edrych ar sut y byddwn yn rheoli'r newid hwn a'r risgiau cysylltiedig
- Rhannu'r camau nesaf

### 1.2 Y Trefniadau Presennol

Y chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru yw Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam.

Mae'r trefniadau ar gyfer gwasanaethau gwella ysgolion yn amrywio ar draws y chwe awdurdod lleol.

Mae gan Gonwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam dîm o swyddogion wedi'u lleoli ym mhob awdurdod i gyflenwi'r swyddogaethau Gwella Ysgolion craidd i'r ysgolion o fewn yr awdurdod hwnnw. Wrth sôn am Swyddogaethau Gwella Ysgolion Craidd, yr hyn a olygir yw swyddogaethau statudol a chynghorol yng nghyswllt gwella ysgolion (monitro, herio, cefnogi ac ymyrryd). Cefnogir y rhain gan amrywiaeth o swyddogaethau gwella ysgolion ychwanegol e.e. Blynnyddoedd Cynnar, 14-19, Cynhwysiad, Cerddoriaeth, Athrawon Bro, Staff Cefnogi TGCh, Ysgolion Iach, Pobl Ifanc Weithgar, Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion, System Gwybodaeth Reoli.

Mae Ynys Môn a Gwynedd yn comisiynu Cynnal i ddarparu cefnogaeth ar gyfer swyddogaethau Gwella Ysgolion craidd ac ychwanegol.

Ar draws y chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru mae ALLau neu ysgolion yn comisiynu Cynnal neu Gangen Cefnogi'r Cwricwlwm yn uniongyrchol i ddarparu cefnogaeth benodol ychwanegol.

Gwasanaeth rhanbarthol a weithredir gan Gonwy ar gyfer ysgolion yng Nghyngor Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam yw'r Gwasanaeth Addysg Awyr Agored. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn darparu rôl gynghorol a'r swyddogaeth fonitro ar gyfer Ymweliadau Addysgiadol i'r ALLau a nodir uchod, gan gynnwys Ynys Môn.

Ceir diffiniadau o'r hyn a olygir wrth sôn am 'wella ysgolion' yn Atodiad 1

## 2. Pam Mae Angen i Ni Newid - Y Cyd-destun Cenedlaethol a Rhanbarthol

Trafodwyd yr angen i newid yn yr *'Adroddiad ar Ddichonolrwydd a goblygiadau sefydlu Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol ar gyfer y Chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru'*<sup>1</sup>, yr ymgynghorwyd arno ym mis Ebrill 2011.

Mewn perthynas â'r **cyd-destun cenedlaethol a rhanbarthol**, dyma'r ystyriaethau perthnasol:

### Cenedlaethol

- Yr Agenda ar gyfer Gweddnewid a Moderneiddio – disgwyliadau Llywodraeth Cymru (Adroddiad Thomas; Adroddiad Simpson)
- Pwyslais ar godi safonau a pherfformiad mewn addysg
- Goblygiadau'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion
- Gweithredu Fframwaith Arolygu Cyffredin ESTYN
- Yr ystyriaethau presennol o ran dosbarthu swyddogaethau – lleol, rhanbarthol a chenedlaethol
- Gostyngiad mewn adnoddau – yr angen sicrhau systemau effeithlon

### Rhanbarthol

- Cyfyngu ar gynhwysedd rhai Awdurdodau Lleol (ALLau)
- Nid yw'r patrymau darparu presennol yn addas i'r diben, ac mae angen newid
- Pwysigrwydd y berthynas rhwng ALLau a'u hysgolion
- Effaith rhanddeiliaid
- Cydnabyddiaeth ac ymrwymiad er mwyn datblygu gwasanaethau rhanbarthol a chydweithio ar draws y 6 ALI.
- Cydnabyddiaeth o'r cryfderau presennol a ffydd mewn datblygiad cynyddrannol
- Ymrwymiad tuag at wasanaeth effeithiolrwydd a gwella ysgolion rhanbarthol fel cam cyntaf tuag at wasanaeth rhanbarthol cyflawn

---

<sup>1</sup> *'Adroddiad ar Ddichonolrwydd a goblygiadau sefydlu Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol ar gyfer y Chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru'* Gerson Davies, Ymgynghorydd Annibynnol, Ionawr 2011

### 3. Canfyddiadau'r Ymgynghoriad â Rhanddeiliaid ar Wasanaeth Rhanbarthol

Yn ôl canfyddiadau'r *'Adroddiad ar Ddichonolrwydd a Goblygiadau Sefydlu Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol ar gyfer y chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru'*<sup>2</sup>, mae gwasanaeth o'r fath yn ddichonadwy, a byddai'n ddatblygiad allweddol er mwyn gweddnewid, a allai esgor ar ddarpariaeth o ansawdd uchel a chyfrannu tuag at sicrhau deilliannau gwell ar gyfer dysgwyr. Byddai hefyd yn galluogi ysgolion yn ogystal ag awdurdodau lleol i gyflawni'u hymrwymiaadau statudol.

Roedd yr adroddiad yn cydnabod effaith cymhellion allweddol – ar raddfa genedlaethol yn ogystal ag ar raddfa leol, yn enwedig yr her a osodwyd gan y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion (FfEY) a'i ymagwedd integredig. Roedd yn cydnabod pwysigrwydd newid cynyddrannol a manteision cyfyngu ar darfu drwy geisio adeiladu ar gryfderau presennol a thrwy sicrhau trefniadau trosiannol effeithiol. Nodai hefyd yr angen i sicrhau bod amrywiaeth ac amrywiadau lleol yn cael eu hystyried.

Ym mis Rhagfyr 2010, penderfynodd y Bwrdd Rhanbarthol Addysg a Gwasanaethau Cysylltiedig fabwysiadu'r adroddiad a'i argymhellion, gan gytuno â'r opsiwn *'gwasanaeth rhanbarthol sy'n cwmpasu cyfrifoldebau awdurdodau lleol ac ysgolion'*.

Ym mis Mawrth 2011, trefnodd y Cyfarwyddwyr/Prif Swyddogion unigol gyfarfodydd ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol ym mhob Awdurdod unigol, ac fe gyflwynwyd adroddiadau pellach i bwyllgorau craffu a byrddau gweithredol y chwe ALI. Yn ogystal â hyn, cynhaliodd y Swyddog Consortiwm a'r Ymgynghorydd Annibynnol ymgynghoriad â Grwpiau Ffocws perthnasol (gyda Phenaethiaid; Llywodraethwyr Ysgol; Undebau Llafur), a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o bob cwr o'r rhanbarth. Yn yr Adroddiad dilynol<sup>3</sup> cafwyd bod cefnogaeth sylweddol i'r strategaeth; mewn llawer o achosion, croesawyd sefydlu Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol; roedd eraill yn sylwi ar y cymhellion tuag at wasanaeth o'r fath, a'u heffaith. Ar yr un pryd, cafwyd cefnogaeth ar gyfer gweithredu'r Opsiwn.

O ganlyniad i hyn, penderfyniad y Bwrdd Rhanbarthol Addysg a Gwasanaethau Cysylltiedig oedd parhau i gydweithredu a cheisio sefydlu Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion sy'n addas i'w ddefnyddio yn y dyfodol, (yn enwedig er mwyn gweithredu'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion), sy'n adeiladu ar gryfderau presennol, ac sy'n darparu gwasanaeth integredig ar draws y rhanbarth. Bydd y gwasanaeth rhanbarthol hwn yn eiddo i'r chwe ALI ac yn gweithredu fel endid ar wahân o dan fframwaith comisiynu ar y cyd. Bydd y fframwaith yn gofyn bod y gwasanaeth rhanbarthol yn broffesiynol a thrwyadl ac yn canolbwyntio ar addysgeg, dysgu ac arweiniad wrth ymdrin â'r ysgolion; yn yr un modd, bydd gofyn i'r ysgolion a'r ALlau hwythau fod yn broffesiynol a thrwyadl. Bydd ymagwedd fel hyn yn hanfodol er llwyddiant a hygyrdd y datblygiad.

---

<sup>2</sup> *'Adroddiad ar Ddichonolrwydd a goblygiadau sefydlu Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol ar gyfer y chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru'* Gerson Davies, Ymgynghorydd Annibynnol, Ionawr 2011

<sup>3</sup> Adroddiad ar Ymgynghoriad mewn perthynas â'r cynnig i sefydlu *'Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol ar gyfer y chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru'* Gerson Davies, Ymgynghorydd Annibynnol, Ebrill 2011

## 4. Beth fydd natur y Gwasanaeth Rhanbarthol Newydd?

Y weledigaeth yw sefydlu Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol i fod yn atebol i'r chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru, ac i gyflawni'u cyfrifoldebau statudol, mewn perthynas â'r dyletswyddau i fonitro; herio; darparu gwasanaethau cefnogi ar gyfer y cwricwlwm, datblygiad proffesiynol parhaus a rheoli ysgolion, a darparu hefyd wasanaethau y gall ysgolion ac awdurdodau lleol eu comisiynu.

Dyma **6 swyddogaeth allweddol** y gwasanaeth rhanbarthol newydd, sy'n seiliedig ar yr egwyddor graidd o ddarparu strategaethau iaith Gymraeg lleol a chenedlaethol i ddatblygu a chynyddu rhagoriaeth mewn addysgeg ac addysg cyfrwng Cymraeg/dwyieithog mewn cymunedau ledled Gogledd Cymru:

1. cynorthwyo ALLau i gyflawni'u swyddogaethau statudol mewn perthynas ag effeithiolrwydd ysgolion;
2. rhoi cymorth i ALLau ac Ysgolion (gyda'i gilydd ac ar wahân, yn ôl y galw) ar gyfer gweithgarwch Gwella Ysgolion;
3. cymryd cyfrifoldeb penodol am Weithredu'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion ac am atebolrwydd y Fframwaith Arolygu Cyffredin;
4. darparu ar gyfer datblygu, cynnal ac adolygu fframweithiau rhanbarthol drwy drefniant comisiynu;
5. darparu canolfan arbenigedd ar gyfer gwasanaeth systemau gwybodaeth reoli ac ar gyfer rheoli, dadansoddi a dehongli data;
6. darparu canolfan arbenigol ar gyfer materion rheoli Addysg a Gwasanaeth Adnoddau Dynol Addysg i gynnig arbenigedd a chyingor.

Mae'r prosiect hwn i ddechrau'n eithrio: (i) gwasanaethau cefnogi penodol a nodir yn 'swyddogaethau 5 a 6' uchod e.e. AD a Systemau Gwybodaeth Reoli – bydd y rhain yn brosiectau ar wahân i'w cyflenwi yn erbyn y rhaglen, ac fe'u trafodir yn adran 4.4 yr achos hwn; a (ii) swyddogaethau gwella ysgolion ychwanegol e.e. Blynyddoedd Cynnar, 14-19, Cynhwysiad, Cerddoriaeth, Athrawon Bro, staff cefnogi TGCh, Ysgolion Iach, Pobl Ifanc Weithgar, PESS, Systemau Gwybodaeth Reoli - caiff y rhain eu hystyried yn y cyd-destun rhanbarthol ar ôl sefydlu Gwasanaeth Rhanbarthol.

Am ddisgrifiad llawn o'r 6 swyddogaeth allweddol, gweler Atodiad 2.

### 4.1 Nodau ac Amcanion Allweddol

Gan roi ystyriaeth ddigonol i'r cymhellion cenedlaethol a rhanbarthol, y **nodau allweddol** yw sefydlu gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol a fydd yn:

- gweithredu'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion cenedlaethol er mwyn codi safonau a gwella lles drwy leihau'r amrywiant o fewn ysgolion ac awdurdodau lleol, a rhyngddynt, gan ystyried angen lleol ar yr un pryd;
- ymateb i gyfundrefn arolygu Estyn, sydd wedi codi'r disgwyliad a phwysleisio gwaith partneriaeth yn ei feini prawf arolygu diwygiedig;
- canfod arbedion effeithlonrwydd; a
- darparu sylfaen sy'n caniatáu rhanbartholi gwasanaethau eraill Addysg, neu wasanaethau sy'n gysylltiedig ag Addysg e.e. Cynhwysiad.

Bydd y Bwrdd Rhanbarthol *Addysg a Gwasanaethau Eraill Cysylltiedig* yn anelu i gyflenwi'r prosiect yn erbyn dau **amcan** trosfwaol:

- cyflenwi'r Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion o dan y trefniadau rhanbarthol ar draws y chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru, erbyn mis Medi 2012;
- Canfod arbedion o 10% yng ngwariant Gogledd Cymru drwy ddarparu Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion rhanbarthol.



## 4.2 Arfarniad o Opsiynau ar gyfer y Model Llywodraethu

Dyma'r ffyrdd y bydd y Cynghorau'n llywodraethu gwasanaethau, yn berchen arnynt ac yn eu dwyn i gyfrif.

Ceir pedwar opsiwn ar gyfer Llywodraethu:

- A - Cyd-bwyllgor
- B - Cyd-bwyllgor gydag Awdurdod Lletyol
- C - Cwmni Cyfyngedig Drwy Warant
- D - Cwmni Buddiannau Cymunedol

Wrth ystyried yr opsiynau uchod ar gyfer llywodraethu, ystyriwyd y meini prawf allweddol canlynol:

	Opsiwn A	Opsiwn B	Opsiwn C	Opsiwn D
	Cyd-bwyllgor	Cyd-bwyllgor gydag Awdurdod Lletyol	Cwmni Cyfyngedig Drwy Warant	Cwmni Buddiannau Cymunedol
Rhaid gallu cyflogi staff	✘ Ni ellir gwneud hyn heb awdurdod lletyol	✓	✓	✓
Rhaid gallu rhoi gwaith ar gontract	✘ Ni ellir gwneud hyn heb awdurdod lletyol	✓	✓	✓
Rhaid gallu masnachu	✘ Ni ellir gwneud hyn heb awdurdod lletyol	✓	✓	✓
Rhaid gallu cysoni Telerau ac Amodau Staff	✘	✓	✓	✓
Rhaid gallu aros yn solfent	✓	✓	? Yn dibynnu a fydd y diffyg pensiwn yn cael ei danysgrifennu gan ALLau	? Yn dibynnu a fydd y diffyg pensiwn yn cael ei danysgrifennu gan ALLau
Rhaid gwneud cymaint ag sy'n bosibl i liniaru tensiwn	✓	? Yn dibynnu ar gryfder y cyfathrebu	? Yn dibynnu ar gryfder y cyfathrebu	? Yn dibynnu ar gryfder y cyfathrebu
Rhaid i'r Ysgolion allu bod yn Rhanddeiliaid ffurfiol.	✘	✘	✓	✓
	<b>-3</b>	<b>+4</b>	<b>+5</b>	<b>+5</b>

O ystyried y meini prawf allweddol uchod, ac yn amodol ar drafodaethau pellach a chyngor cyfreithiol, yr opsiwn cychwynnol a ffafrir yw: **Opsiwn C 'Cwmni Cyfyngedig Drwy Warant'** (*Ystyrir mai amrywiad o Opsiwn C yw Opsiwn D*). Fodd bynnag, mae angen gwneud gwaith pellach i gymharu manteision a risgiau'r Cyd-bwyllgor gydag Awdurdod Lletyol a Cwmni Cyfyngedig Drwy Warant cyn dod i benderfyniad terfynol.

Byddai'r cwmni'n eiddo i'w aelodau, a fyddai'n cynnwys ysgolion, a byddai'n perthyn yn gyfan gwbl i'r sector cyhoeddus. Cyfarwyddwyr y Cwmni fyddai'n ei reoli, a byddai'r rheiny'n cael eu penodi gan aelodau'r Cwmni. Mae i'r opsiwn hwn y fantais o allu pennu a chysoni cyflogau ac amodau, o allu cyflogi a rhoi gwaith ar gontract, ac mae wedi'i ddiogelu rhag hawliadau cyflog cyfartal. Mae'n caniatáu aelodaeth luosog, ac mae'n cynnig y fantais o gael ysgolion yn rhanddeiliaid ffurfiol, yn wahanol i gyd-bwyllgor neu awdurdod lletyol (gyda chyd-bwyllgor neu awdurdod lletyol, ni all ysgolion ond gweithredu fel arsylwyr, heb hawliau pleidleisio). Yr her ar gyfer y model llywodraethu hwn yw cadw'n solfent, a byddai'n ofynnol i awdurdodau danysgrifennu'r diffyg pensiwn i sicrhau hyn.

Yn Atodiad 3<sup>4</sup> ymhelaethir yn fanylach ar nodweddion, manteision ac anfanteision pob opsiwn. Mae ymgynghorydd cyfreithiol allanol sy'n arbenigo mewn materion sy'n ymwneud â threfniadau llywodraethu yn paratoi cyngor ar oblygiadau cyfreithiol pob un o'r modelau cyfreithiol, a bydd y cyngor hwnnw'n sail ar gyfer yr opsiwn a ffafrir drwy'r achos busnes llawn.<sup>5</sup>

#### **4.2.1 Trefniadau Llywodraethu mewn Perthynas ag Aelodau ac ALLau Unigol**

Nid yw gweithredu'r cynnig i sefydlu gwasanaeth rhanbarthol yn lleihau rôl na chyfrifoldebau ALLau unigol mewn perthynas ag effeithiolrwydd a gwella ysgolion. Mae'r cyfrifoldebau statudol yn dal i fod yn berthnasol i'r ALLau. Mae'r datganiadau canlynol yn wir am bob un o'r modelau:

- bydd y gwasanaeth rhanbarthol yn eiddo i'r chwe Awdurdod Lleol;
- y Bwrdd fydd yn gyfrifol am fonitro'r modd y bydd y gwasanaeth yn cyflawni'r 6 swyddogaeth, a bydd aelodau'r Bwrdd yn cynnwys deiliaid portffolio a Chyfarwyddwyr Addysg/Prif Swyddogion Addysg unigol y chwe ALI a'r ysgolion;
- bydd y Bwrdd yn sicrhau y bodlonir gofynion yr ALI drwy'r swyddogaethau a'r cyfrifoldebau a gyflenwir gan y Gwasanaeth;
- bydd angen o hyd i awdurdodau unigol wneud trefniadau rheolaidd i fonitro a herio'r gwasanaethau a dderbynnir, gan gynnwys eu prosesau craffu a gwleidyddol; a
- byddai Pwyllgorau Craffu'n cael cyfle i ofyn am adroddiadau penodol ar faterion sy'n gysylltiedig ag effeithiolrwydd ysgolion, yn ychwanegol at drefniadau gweithredol y gwasanaeth.

Mae'r trefniadau hyn yn fodd i sicrhau mai'r aelodau lleol sy'n dal i fod yn atebol yn wleidyddol. Mewn gwirionedd, ceir cyfle i bob un o'r modelau llywodraethu gryfhau atebolrwydd lleol drwy sicrhau bod aelodau lleol yn datblygu'n eiriolwyr dros blant ac yn hyrwyddwyr anghenion cymunedol.

#### **4.3 Model ar gyfer Cyflenwi**

Mae hyn yn cyfeirio at y dull o gyflenwi'r gwasanaeth, gyda ffocws clir ar sicrhau deilliannau gwell i ddysgwyr, a sicrhau'r hawl i dderbyn darpariaeth o ansawdd uchel, a hynny'n gyson.

Yn y cam hwn, ni fwriedir rhoi disgrifiad manwl o'r modd y caiff y gwasanaeth ei gyflenwi. Caiff hyn ei ddatblygu yn rhan o'r 'Achos Busnes Llawn' dilynol, gan gynnwys trafodaeth ac ymgynghoriadau â rhanddeiliaid (ALLau ac Ysgolion). Fodd bynnag, mae'r amlinelliad o'r model ar gyfer cyflenwi Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol yn eglur, ac wedi'i gyflwyno yn *ffigwr 1* ar dudalen 11.

Er mwyn cael dealltwriaeth well o'r model cyflenwi yn *ffigwr 1*, cynhelir archwiliad manylach o elfennau'r model (a - g) yn yr adran hon:

<sup>4</sup> Nick Jarman, Ymgynghorwyr Rheoli Windsor and Co

<sup>5</sup> Trowers & Hamllins LLP

### **(a) Model Llywodraethu**

Trafodwyd modelau llywodraethu yn adran flaenorol (4.2) y ddogfen hon, a hyd nes y ceir trafodaethau a chyngor cyfreithiol pellach, cesgkir mai'r opsiwn 'Cwmni Cyfyngedig Drwy Warant' yw'r ffordd ymlaen a ffafrir (yn amodol ar drafodaethau pellach).

### **(b) Gwasanaeth Rhanbarthol**

Erbyn mis Medi 2012 caiff swyddogaethau statudol 'gwella ysgolion craidd' i *fonitro*, *cefnogi*, *herio*, ac *ymyrryd* eu cyflenwi'n rhanbarthol ar draws yr holl ysgolion yn chwech o awdurdodau lleol Gogledd Cymru, gan sicrhau drwy hynny fynediad at farchnad ehangach o ran cefnogaeth benodol – a'i gwneud hi'n bosibl i gadw gwybodaeth system o fewn y sector cyhoeddus.

Bydd oddeutu 20% o'r gwasanaeth rhanbarthol yn strategol ac 80% ohono'n gyflenwi, a bydd yn cynnwys tîm craidd o 'Arweinwyr Systemau' a reolir gan Brif Swyddog ac a gefnogir gan Dîm Busnes.

Bydd y Prif Swyddog yn rheoli'r dasg o redeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd ac yn atebol i'r Bwrdd, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob ALI ac o'r Ysgolion.

Yn y gwasanaeth rhanbarthol bydd Arweinwyr Systemau (y cyfeirir atynt yn ffurfiol fel Cynghorwyr Ysgol neu Swyddogion Gwella Ysgolion) yn darparu'r swyddogaethau statudol o fonitro, cefnogi, herio ac ymyrryd. Ni fydd eu swyddogaeth graidd yn cynnwys rhoi cefnogaeth ar gyfer pynciau arbenigol (gweler 'f a g' isod).

Mae drafft o 'Fanylion am yr Unigolyn ar gyfer Arweinydd Systemau' ar gael yn Atodiad 4.

Y Prif Swyddog fydd yn dewis aelodau'r Tîm Busnes, a threfnir iddynt gefnogi'r staff o fewn y gwasanaeth rhanbarthol.

### **(c) Cyflenwi'r Gwasanaeth**

Bydd y Gwasanaeth Rhanbarthol yn cefnogi'r holl ALLau a'r holl ysgolion ar draws y rhanbarth sy'n comisiynu ei wasanaethau.

Yr hyn sy'n glir o'r ymgynghoriad â'r rhanddeiliaid yw'r angen am wasanaeth dwyieithog a all roi cefnogaeth lawn drwy gyfrwng y Gymraeg ar draws y rhanbarth. Rhagwelir y bydd Arweinwyr Systemau sy'n gwasanaethu'r rhanbarth nid yn unig yn gallu rhoi cefnogaeth, ond hefyd yn gallu cyflawni'u busnes o ddydd i ddydd drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn cyfrannu tuag at Strategaethau Iaith Gymraeg lleol a chenedlaethol i ysgogi datblygiad cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar gyfer cymunedau addysg ledled Gogledd Cymru.

### **(d) Presenoldeb Lleol**


Yn dilyn ymgynghoriad â rhanddeiliaid, nodwyd bod angen sicrhau y caiff amrywiaeth ac amrywiannau lleol eu hystyried mewn unrhyw fodel darparu, a bod ysgolion yn arbennig am gadw'r manteision a gynigir gan y gwasanaeth lleol ar hyn o bryd - sef bod staff gwella ysgolion yn adnabod eu hysgol a'i hathrawon.

O ganlyniad i hyn, rhagwelir y ceir presenoldeb lleol drwy gael swyddogion o'r gwasanaeth rhanbarthol i weithio gydag ysgolion lleol. Mae hyn yn fodd i wireddu manteision ymagwedd gyson a chyffredin tuag at y fframweithiau a'r protocolau, gan fodloni anghenion ysgolion unigol ar draws y rhanbarth ar yr un pryd.

**(e) a (f) Cefnogaeth ar gyfer Pynciau Arbenigol**

Fel y nodwyd yn elfen (b), ni fydd cefnogaeth ar gyfer pynciau arbenigol yn rhan greiddiol o'r swyddogaeth a gyflenwir gan y Gwasanaeth Rhanbarthol drwy ei Arweinwyr Systemau. Fodd bynnag, caiff ysgolion ddewis comisiynu cefnogaeth arbenigol o'r fath drwy 'Frocer', a fydd yn aelod o'r Tîm Busnes o fewn y gwasanaeth rhanbarthol.


Ffigwr 1.  
**Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol**  
 Model Cyflenwi



### 4.3.1 Y Cyflenwad Staff

Ar hyn o bryd, mae'r chwe awdurdod yng Ngogledd Cymru'n gwario cyfanswm o oddeutu £5.1 miliwn ar Wasanaethau Gwella Ysgolion. Drwy'r rhaglen drawsnewid, mae consortiwm Gogledd Cymru wedi ymrwmo i ganfod arbedion o 10% o wariant Gogledd Cymru.

O ganlyniad i hyn, mae adnodd rhanbarthol o £4.6 miliwn yn caniatáu sefydlu gwasanaeth rhanbarthol sy'n cynnwys (i) tîm craidd o 'Arweinwyr Systemau' a reolir gan 'Brif Swyddog' ac a gefnogir gan 'Dîm Busnes', gan sicrhau y gellir comisiynu'r gwasanaeth rhanbarthol i gyflawni swyddogaethau statudol yr ALLau a (ii) tîm estynedig (sy'n cynnwys, er enghraifft, Arweinwyr Systemau Cyswllt ac/neu arbenigwyr cwricwlwm) a gomisiynir gan ALLau/ysgolion, ac a reolir gan y Prif Swyddog, gan sicrhau hyblygrwydd er mwyn i ysgolion ac ALLau allu cyflawni'r agenda safonau.



#### Tîm Craidd

Mae'r model cychwynnol o dîm craidd o Arweinwyr Systemau a gomisiynir gan ALLau i gyflawni'u swyddogaethau statudol yn seiliedig ar y tybiaethau canlynol:

- y byddai ar bob ysgol angen cefnogaeth Arweinydd Systemau am 3 diwrnod y flwyddyn i gyflenwi gwelliant parhaus mewn Addysg yn unol â'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion;
- y byddai ar unrhyw ysgol sy'n destun pryder angen 16 diwrnod ychwanegol y flwyddyn o gefnogaeth gan dîm o Arweinwyr Systemau (tybir y byddai hyn yn effeithio ar 35% o'r ysgolion yn y modelu cychwynnol);
- amcangyfrifir 3 diwrnod arall y flwyddyn ar gyfartaledd, fesul ysgol, er mwyn i Arweinwyr Systemau roi cefnogaeth benodol ar gyfer effeithiolrwydd a gwelliannau mewn llythrennedd a rhifedd (yn dibynnu ar angen).

Mewn perthynas â'r Tîm Busnes, mae staff gweinyddol wedi cael eu cynnwys ar gymhareb o 1:5 (un swyddog gweinyddol fesul pum arweinydd systemau). Gall y tîm hefyd gynnwys Brocer a chyfieithydd Cymraeg.

#### Tîm Estynedig

Wrth ymgynghori ag ysgolion rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2011, bydd angen canfod a ellir ymestyn y tîm craidd o Arweinwyr Systemau drwy gynnwys naill ai Arweinwyr Systemau cyswllt, ac/neu arbenigwyr cwricwlwm, er mwyn sicrhau bod digon o gynhwysedd i fodloni gofynion ysgolion wrth iddynt gomisiynu cefnogaeth gan y gwasanaeth rhanbarthol. Byddai'r rhain yn swyddi hyblyg ar delerau sefydlog, a nifer y staff yn dibynnu ar faint y comisiynu o du'r ysgolion, naill ai drwy gyllid wedi'i ddirprwyo o'r ALI, ac/neu'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion. Mae'r ffaith mai 'tymor penodol' yw'r swyddi hyn yn fodd i sicrhau y gall anghenion newidiol ysgolion dros y blynyddoedd nesaf gael eu cynnwys yn rhan o ffocws arweinwyr systemau yn y dyfodol.

Ceir crynodeb o'r model ariannol yn Atodiad 5.

### 4.3.2 Y Manteision a Ragwelir yn sgil Gwasanaeth Rhanbarthol Newydd

Dyma'r manteision a ragwelir yn sgil y model cyflenwi:

1. Deilliannau gwell i ddysgwyr, gan sicrhau'r hawl i dderbyn darpariaeth o ansawdd uchel, a hynny'n gyson.
2. Cyfrannu tuag at Strategaethau Iaith Gymraeg Lleol a chenedlaethol i ysgogi datblygiad cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar gyfer cymunedau addysg ledled Gogledd Cymru.
3. Mynediad at farchnad ehangach o ran cefnogaeth benodol – mae hyn yn caniatáu cadw gwybodaeth am systemau o fewn y sector cyhoeddus.
4. Gweithredu gofynion y Fframwaith Effeithlonrwydd Ysgolion mewn modd cydlynol, sy'n adeiladu ar gynhwysedd arwain, gan gynnwys hyfforddi a lleoli arweinydd systemau cyswllt ar drefniant integredig, a sicrhau cyfraniad ymarferwyr yn yr ysgol drwy hynny.
5. Darparu 'pwerdy' addysgeg cyfun a'r manteision sy'n deillio o hyn i'r gwasanaeth addysg, gan sicrhau bod mwy o gapasiti ac arbenigedd ar gael i ysgolion.
6. Ymagwedd gyson a chyffredin tuag at fframweithiau a phrotocolau y cedwir atynt ar draws y rhanbarth.
7. Gwell effeithlonrwydd o ran costau a gwerth am arian, a galluogi mynediad at adnoddau ALI ac Ysgolion mewn modd cost effeithiol.

Mesurir y graddau y caiff y manteision hyn eu gwireddu drwy amryw o ffyrdd:

- gwelliant mewn safonau ar draws y Dangosydd Pwnc Craidd ar raddfa leol a rhanbarthol;
- lleihau'r bwlch rhwng tlodi a chyrhaeddiad ar raddfa leol a rhanbarthol;
- graddau a dyfarniadau ansawdd uchel mewn arolygiadau ESTYN o'r ysgolion yn ogystal â'r ALIau unigol / y Gwasanaeth Rhanbarthol;
- yr un ysgol yn destun pryder ar draws y rhanbarth;
- tystiolaeth o ymagwedd gyffredin tuag at fframweithiau a phrotocolau y cedwir atynt ar draws y rhanbarth;
- cyrraedd targedau effeithlonrwydd cenedlaethol yn lleol;
- lefel y comisiynu o du'r ysgolion (fel dangosydd).

### 4.3.3 Arbedion Posibl

Mae'r model ariannol yn ceisio cyflawni 10% o arbedion o'r trefniant newydd, fydd tua £500k yn erbyn rhagamcan gwariant presennol o ychydig dros £5 miliwn ar y swyddogaethau craidd a ystyrir sydd o fewn cwmpas y prosiect hwn.

Mae'n bwysig nodi bod yr arbedion hyn mewn perthynas â'r prosiect hwn yn unig. Rhagwelir y daw arbedion pellach o gamau dilynol y prosiect (e.e. Blynyddoedd Cynnar, 14-19, Cynhwysiad, Cerddoriaeth, Athrawon Bro, staff cefnogi TGCh, Ysgolion Iach, Pobl Ifanc Egniol, PESS, MIS) ac o brosiectau cyd-ddibynnol MIS ac AD.

Disgwylir y bydd cam 2 y prosiect rhanbarthol yn dechrau ym mis Medi 2012, a bydd y Bwrdd Rhanbarthol yn penderfynu ar yr ardal gwasanaeth.

Mae'r model darparu yn seiliedig ar sefydlu tîm craidd o Arweinydd Systemau sy'n cael eu rheoli gan Brif Swyddog a'u Cefnogi gan Dîm Busnes, ac yn rhagdybio y bydd unrhyw adnoddau arian sy'n cael eu rhyddhau o'r Awdurdodau Lleol, yn fwy na'r targed arbedion effeithlonrwydd, yn cael eu dirprwyo i ysgolion. Bydd hyn yn galluogi'r ysgolion i froceru tîm estynedig o arweinydd systemau cyswllt ychwanegol, neu arbenigwyr cwricwlwm, ar sail ysgol unigol neu glwstwr fel bo'r angen. Bydd y tîm estynedig yn darparu hyblygrwydd a chefnogaeth ychwanegol ar gyfer unigolion ac ALIau i sicrhau bod safonau yn gwella'n gyflym.

## **4.4 Prosiectau Cyd-ddibynnol Cyfredol**

### **4.4.1 Systemau Gwybodaeth Reoli Canolog**

Un o swyddogaethau allweddol y gwasanaeth rhanbarthol yw darparu canolfan arbenigedd ar gyfer Systemau Gwybodaeth Reoli ac er mwyn rheoli, dadansoddi a dehongli data. Y nôd hwn, ynghyd â'r cyfle i weithio'n fwy effeithlon ac effeithiol, sydd wedi sbarduno'r gwaith i gynnwys y systemau Capita ONE canolog (a geir ar hyn o bryd ym mhob un o'r chwe awdurdod) yn y trefniant rhanbarthol.

Dros y 18 mis diwethaf, mae Consortiwm CCAC GC, drwy ymgynghorydd a benodwyd, wedi bod yn ymgysylltu â Capita er mwyn cytuno ar drefniant rhanbarthol cydlynus ar gyfer contractau ALI er mwyn cael system ONE ar draws y chwe ALI. Pan sicrheir hyn, bydd costau trwyddedu'n gostwng, a bydd rhaglen o fodiwlau ar gael ar draws y chwe awdurdod.

Dros y tair blynedd nesaf, bydd y prosiect yn canolbwyntio ar weithredu, gan gynnwys:

- cysoni cronfeydd data;
- datblygu prosesau busnes;
- gweithredu modiwlau rhaglen;
- gweithrediad technegol y systemau a gynhelir;
- asesiad o'r effaith ar breifatrwydd;
- cydweithio.

### **4.4.2 Adnoddau Dynol (AD)**

Cydnabyddir bod cefnogaeth AD ar gyfer staff sy'n ymwneud â'r trosglwyddiad hwn yn agwedd hanfodol ar y prosiect. Fodd bynnag, ceir gwahaniaeth clir rhwng AD yn y cyddestun hwn ac AD ar ffurf Gwasanaeth Cefnogi i ysgolion (gwaith achos).

Er y bwriedir i AD fel Gwasanaeth Cefnogi ar gyfer ysgolion (gwaith achos) fod yn un o swyddogaethau'r gwasanaeth rhanbarthol, nid yw, serch hynny, yn rhan o'r prosiect hwn. Yn hytrach, bydd yn brosiect cyd-ddibynnol a fydd yn cyflwyno'r agwedd hon ar AD i'r gwasanaeth rhanbarthol yn fwy graddol. Mae'r trefniant hwn yn angenrheidiol oherwydd amrywiadau a chymhlethdodau yn y trefniadau a geir ar hyn o bryd ar draws y chwe awdurdod.

Mae gwaith eisoes wedi dechrau drwy Grŵp AD CCAC i ystyried mudo AD fel Gwasanaeth Cefnogi ar gyfer ysgolion (gwaith achos) i'r gwasanaeth rhanbarthol. Yn dilyn hyn, bydd prosiect ffurfiol yn cael ei sefydlu er mwyn symud ymlaen â'r gwaith hwn. Bydd y gwaith hwn yn cael ei gyflawni mewn cydweithrediad â'r *'Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Cefnogi Rhanbarthol'*.



## 5. Rheoli'r Prosiect a Risgiau Cysylltiedig


### 5.1 Llywodraethu'r Prosiect a Rheolaethau

Cychwynwyd y prosiect hwn gan y *Bwrdd Addysg a Gwasanaethau Eraill Cysylltiedig* (o dan *Fwrdd Arwain Gogledd Cymru*), a fydd yn gweithredu fel Bwrdd Prosiect er mwyn llywodraethu'r prosiect hwn. Gan adrodd yn uniongyrchol i'r bwrdd prosiect, bydd y Rheolwr Prosiect yn gweithredu mewn ymateb i Gonsortiw CCAC GC, ac yn gweithio gyda'r Consortiw hwnnw i gyflenwi Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion ar draws y chwe awdurdod yng Ngogledd Cymru.

Mae'r Ddogfen Cychwyn Prosiect wedi cael ei chymeradwyo gan Gonsortiw CCAC GC a'i llofnodi gan Noddwr y Prosiect (Prif Weithredwr Arweiniol Sir Ddinbych - Bwrdd Rhanbarthol Addysg a Gwasanaethau Eraill Cysylltiedig)

Caiff y Rheolwr Prosiect ei gefnogi gan Dîm Prosiect sy'n cynnwys arbenigwr Cyllid ac AD, a reolir yn rhithiol.

Mae'r Timau Sicrhau Ansawdd yn cynnwys grwpiau arbenigol presennol sy'n trafod AD, Cyllid a Safonau, ac fe gysylltir â hwy'n fynych ac fel bo'n briodol yn ôl eu harbenigedd drwy gydol y prosiect.



## **Adrodd**

Bydd materion sy'n ymwneud â'r prosiect yn eitem sefydlog ar y rhaglen yn holl gyfarfodydd consortiwm CCAC GC.

Caiff adroddiadau ar y prif bwyntiau eu cyflwyno gerbron y Bwrdd Rhaglen Addysg a Gwasanaethau Cysylltiedig (Bwrdd Prosiect) ar ddiwedd pob 'Cam' yn y prosiect (gweler 6.2), ynghyd ag adroddiadau ychwanegol ar gais y Bwrdd.

### **5.2 Cynllun Prosiect**

Yn y Cynllun Prosiect, nodir y gweithgareddau y bydd angen eu cyflawni er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth rhanbarthol newydd yn cael ei roi ar waith yn llwyddiannus. Er mwyn gwneud hyn, nodwyd pedwar cam allweddol:

Cam 1 - (Datblygu'r) Achos Busnes Amlinellol

Cam 2 - Cyfathrebu'r Achos Busnes Amlinellol i Randdeiliaid

Cam 3 - (Datblygu'r) Achos Busnes Llawn

Cam 4 - Gweithredu'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthoedig

Yn y cynllun prosiect llawn, nodir y gweithrediadau lefel uchel sydd eu hangen er mwyn cwblhau'r camau hyn, ar gyflymder a fydd yn bodloni'r raddfa amser ar gyfer gweithredu ym mis Medi 2012 (gweler Atodiad 6).

### **5.3 Strategaeth Rheoli Risg**

Bydd y broses o nodi, asesu, rheoli a monitro risg yn rhan annatod o'r gwaith o reoli'r prosiect. Mae parhau i nodi ac asesu risg yn allweddol er mwyn sicrhau y caiff ein hamcanion eu cyflawni'n llwyddiannus.

Bydd yr amgylchedd allanol newidiol a'r penderfyniadau a wneir wrth gyflenwi'r prosiect yn newid statws y risgiau a nodwyd, a'r risgiau newydd sy'n codi, yn barhaus. Fel rhan o'r prosiect, dylai'r broses asesu risg gefnogi'r gwaith parhaus hwn o nodi ac asesu risg ac edrych i'r dyfodol.

Caiff risgiau eu nodi gan y Tîm Prosiect (mewn cysylltiad â chydweithwyr ar draws cylch gorchwyl y prosiect) a Chonsortium CCAC GC, a'u hadolygu fel eitem sefydlog ar y rhaglen ar gyfer elfen prosiect cyfarfodydd rheolaidd Consortiwm CCAC GC.

Bydd y Rheolwr Prosiect yn rheoli'n weithredol Risgiau Prosiect ac yn sefydlu mecanwaith i sicrhau bod y rhai hynny a chanddynt gyfrifoldeb i liniaru risgiau'n gweithio'n ddygn i sicrhau bod y lliniaru hwnnw'n digwydd. Er mwyn hwyluso hyn, mae'n ofynnol i berchnogion y risgiau roi diweddariad rheolaidd ar gais y Rheolwr Prosiect.

Mae Cofrestr Risgiau lawn y prosiect (hyd yma) ynghlwm yn Atodiad 7.

### **5.4 Rheoli Newid / Trosglwyddo Staff (AD)**

Mae'r tîm prosiect yn cydnabod y pum egwyddor allweddol wrth reoli newid:

1. Bydd ymateb pobl i newid yn wahanol y naill oddi wrth y llall.
2. Mae gan bawb anghenion sylfaenol y mae'n rhaid eu bodloni.
3. Mae newid yn aml yn golygu colled, a bydd angen i bobl gael amser a chefnogaeth i ymdopi â'r golled honno.
4. Mae angen rheoli disgwyliadau mewn ffordd realistig.

## 5. Mae'n rhaid ymdrin â phryderon.

Bydd model y Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion newydd yn cynnwys proses recriwtio a gaiff ei harwain gan Brif Swyddog y Gwasanaeth Rhanbarthol, ac sy'n bodloni gweithdrefnau lleol. Cyfrifoldeb y Tîm Prosiect yw sicrhau ein bod:

- Yn rhoi gwybodaeth i bobl - yn bod yn agored ac yn onest ynglŷn â'r ffeithiau, ond heb ddamcanu'n rhy optimistaidd, h.y. bodloni eu hangen am ddiwylledd, ond mewn modd nad yw'n creu disgwyliadau afrealistig.
- Yn creu matrices cyfathrebu sy'n sicrhau bod gwybodaeth gynhwysfawr yn cael ei dosbarthu'n effeithlon i bawb. Yn dweud wrth bawb ar yr un pryd, lle bynnag y bo modd, a chynnal cyfweiliadau unigol yn dilyn hynny lle bo'n briodol.
- Pan fydd gan bobl benderfyniadau i'w gwneud, yn mynegi hynny'n glir, a bod yn onest ynglŷn â chanlyniadau posibl y penderfyniadau hynny.
- Yn rhoi amser a chyfle i bobl fynegi'u safbwyntiau, a'u cefnogi wrth iddynt wneud penderfyniadau, drwy ddarparu hyfforddiant, cwnsela neu wybodaeth fel bo'n briodol.
- Yn nodi a fydd y newid yn arwain at golled, a beth fydd, neu beth allai gael ei gyflwyno yn lle'r golled honno.
- Yn rhoi cyfle i unigolion fynegi'u pryderon a rhoi sicrwydd iddynt ar sail yr hyn sy'n bosibl.
- Yn parhau i gadw at arferion rheoli da, fel neilltuo amser i gynnal trafodaeth anffurfiol a rhoi adborth.
- Yn gweithio gyda'r undebau llafur i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i staff o fewn cwmpas y prosiect.
- Yn parchu hawliau'r unigolion mewn perthynas â Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 (TUPE).

Mae copi o'r Matrics Cyfrifoldeb a Chyfathrebu ar gael yn Atodiad 8.

## 6. Y Camau Nesaf

### 6.1 COMPACT

Yn unol ag Adolygiad Simpson, a chyda chefnogaeth lwyr ei Haelodau, mae CLILC yn arwain ymateb llywodraeth leol Cymru i Adolygiad Simpson, ac wedi ymrwymo i weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddarparu compact a fydd yn:

- manylu ar ddatblygu darpariaeth gwasanaeth gydweithredol a chenedlaethol yn y meysydd a nodir yn yr Adolygiad.
- nodi amserlen ar gyfer gweithredu argymhellion Adolygiad Simpson;
- amlinellu'r gweithrediadau y dylai Gweinidogion Cymru eu cyflawni i gefnogi gweithredu argymhellion yr Adolygiad;
- nodi'r ffyrdd y gallai'r Gweinidogion ymateb os nad yw awdurdodau lleol yn cyflawni'r ymrwymadau a gytunwyd ganddynt;
- disgrifio llwyddiant.

Bydd y compact yn trafod yr holl argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn Adolygiad Simpson, ond yn rhoi'r sylw pennaf i argymhellion sy'n gydnaws â blaenoriaethau llywodraeth leol Cymru, fel y nodir ym Maniffesto CLILC ar gyfer Etholiad y Cynulliad a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2011, yn benodol:

- Gwella sgiliau a chyrhaeddiad addysgol
- Cefnogi'r gofal dros bobl ddi-amddiffyn, a'u hannibyniaeth
- Rheoli Gwastraff – Gwneud Defnydd Gwell o'n Hadnoddau
- Datblygu Cludiant Cynaliadwy
- Mynd i'r Afael ag Anghenion Tai

Mewn adroddiad gan CLILC i roi'r newyddion diweddaraf i Aelodau ynghylch datblygu Compact rhwng llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru, nodir bod *'Llywodraeth Leol yn ymrwymedig i gymryd camau brys fel y bydd awdurdodau lleol wedi breinio'u pedwar consortiwm addysg â'r holl adnoddau angenrheidiol erbyn mis Medi 2012, i greu gwasanaethau gwella ysgolion rhanbarthol. Rhaid i gonsortia roi'r flaenoriaeth uchaf un i godi safonau yn ein hysgolion, a dyma yw prif weithred pob un o'r pedwar ohonynt'*.

Disgwylir i'r Compact gael ei gyflwyno gerbron cyfarfodydd Cabinet ar draws awdurdodau Cymru yn nhymer yr hydref 2011, a disgwylir bryd hynny y bydd yr holl awdurdodau yn cytuno i gyflawni blaenoriaethau'r Compact.

Bydd y datblygiadau cyfredol a'r datblygiadau i'r dyfodol a gynllunnir ar draws y chwe awdurdod yng Ngogledd Cymru ac a gyflwynir yn yr Achos Busnes Amlinellol hwn, yn cyflawni'n unol â'r ymrwymiad i'r Compact.

### 6.2 Dyddiadau Allweddol

Medi 2011	Cyflwyno Achos Busnes Amlinellol i'r Cabinet ym mhob ALI.
Hyd i Rhag 2011	Ymgynghoriad ffurfiol a thrafodaeth â rhanddeiliaid.
Ion i Chwef 2012	Achos Busnes Llawn i'r Cabinet ym mhob ALI.
Chwef i Mai 2012	Ymgynghoriad â staff ar amrywiannau mewn contractau
Medi 2012	Y Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol Newydd ar waith.

## Diffiniadau o Wella Ysgolion<sup>6</sup>

### 1. Pwrpas

Yn dilyn y Gweithdai yn Llandrindod, yn yr wythnos a oedd yn dechrau ar 27 Mehefin 2011, gofynnodd nifer o gydweithwyr am ddiffiniad clir o Swyddogaethau Gwella Ysgolion (a geir isod).

Y prif reswm am hyn yw galluogi ALLau/Consortia i wneud penderfyniadau manwl gywir ynglŷn â'r bobl a'r swyddogaethau sydd 'o fewn y cwmpas' ar gyfer cydweithio.

### 2. Diffiniadau o Wella Ysgolion

Byddai'r swyddogaethau canlynol fel arfer yn cael eu disgrifio fel 'Gwella Ysgolion'. Yr hyn a fyddai wedi bod oddi mewn i gyloch gorchwyl ein Gwasanaethau Arolygu a Chynghori hyd yn ddiweddar.

- Lleoli, rheoli, recriwtio a datblygiad proffesiynol parhaus Gweithwyr Proffesiynol Gwella Ysgolion (a elwir o hyn allan yn Arweinwyr Systemau).
- Ymweliadau Rheolaidd (tri bob blwyddyn fesul Ysgol o hyn allan) ag Ysgolion er mwyn monitro perfformiad yr ysgol.
- Cynnal a rheoli (a chomisiynu yn y dyfodol) ymyraethau mewn Ysgolion sy'n destun Pryder.
- Ymyraethau Thematig, e.e. yn ymwneud â grwpiau penodol o ddysgwyr, sydd fel arfer yn tangyflawni (e.e. nad Cymraeg neu Saesneg yw eu hiaith gyntaf, Anghenion Dysgu Ychwanegol, Plant Mewn Gofal ac ati.)
- Casglu, dehongli a dosbarthu Data Ysgolion a Pherfformiad Disgyblion i Ysgolion, oddi mewn i'r ALI, i Aelodau Etholedig, et al.
- Darparu adroddiadau ynglŷn â Safonau a Pherfformiad Ysgolion i Aelodau Etholedig, ESTYN, Llywodraeth Cymru a'r cyhoedd. (Sylwer: mae'n ofyniad statudol i'r ALI roi sylwebaeth ar Ysgol cyn iddi gael ei Harolygu).
- Sylwebaeth ar Gynllun Gweithredu Ysgol yn Dilyn Arolwg, a chymeradwyo'r Cynllun hwnnw. (Ceir mwy o waith yn gysylltiedig â'r dyletswyddau hyn yn achos Ysgol sydd wedi cael ei rhoi mewn categori ffurfiol gan ESTYN).
- Presenoldeb mewn apwyntiadau, Rheoli Perfformiad a diswyddo Penaethiaid.
- Rheoli Strategaeth Llythrennedd a Rhifedd a lleoli arbenigwyr llythrennedd a rhifedd a chynnal rhaglenni datblygiad proffesiynol parhaus llythrennedd a rhifedd.
- Herio Ysgolion drwy Arweinwyr Systemau'n unig ar: Arweinyddiaeth, Addysgu, Dysgu, Grwpiau sy'n Tangyflawni, Presenoldeb, Ymddygiad, Rheoli Cyllid, Defnyddio Data ar Berfformiad ac Asesu, Plant Mewn Gofal, Cymunedau Dysgu

<sup>6</sup> Nick Jarman, Ymgynghorwyr Rheoli Windsor and Co

Proffesiynol a defnyddio adnoddau i gefnogi gwelliant.

- Dyletswyddau gweddilliol Athrawon Newydd Gymhwyso.
- Arwain datblygiad gwaith rhwng ysgolion.

### 3. Fel y mae / Fel y bydd

Yn Adran 2 nodir diffiniad o swyddogaethau Gwella Ysgolion, sy'n llawer mwy cyfyng na'r status quo ac sy'n adlewyrchu'r ymagwedd newydd fanylach tuag at Wella Ysgolion, sy'n llawer llai gwastraffus, drwy ddefnyddio Arweinwyr Systemau, y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion a'r Blaenoriaethau Cenedlaethol newydd.

Mae rhai swyddogaethau GY nad ydynt o bosib yn bodoli mwyach, ond sydd, am eu bod wedi'u cynnwys o dan Gwella Ysgolion ar hyn o bryd, yn golygu bod angen i bobl, swyddi a swyddogaethau o'r fath fod 'o fewn y cwmpas'.

- Cefnogaeth ar gyfer y cwricwlwm, gan gynnwys cyngor am bynciau a chyngor am gyfnodau ac agweddau penodol.
- Cyflenwi mentrau lleol.
- Presenoldeb rheolaidd mewn apwyntiadau heblaw Penaethiaid.
- Cyngor a chefnogaeth TGCh.
- Cynnull a rheoli grwpiau sy'n ymwneud â themâu neu gyfnodau penodol.
- Canolfannau Datblygiad Proffesiynol.
- Cyflawni ymchwil.

Mewn egwyddor, ni fydd unrhyw weithgaredd gwella ysgolion nad yw wedi'i restru yn Adran 2 ond yn cael ei gyflenwi pan fydd Ysgolion yn dewis prynu gwasanaethau, er bod angen ei gynnwys 'o fewn y cwmpas' ar hyn o bryd.

Ceir un eithriad i hyn: gall amrywiaeth o wasanaethau a ddarperir yn ganolog gael eu darparu i Ysgol sy'n Destun Pryder/mewn categori ESTYN yn rhan o Ymyrraeth ffurfiol ALI/Consortiwm mewn Ysgolion o'r fath. Eithriad fydd hyn ar bob achlysur, yn hytrach na'r drefn arferol.

### 4. Nodiadau

- Mae'n ddigon posibl y ceir gwasanaethau eraill, e.e. Gwasanaethau Cerddoriaeth, y Celfyddydau Perfformio. Nid yw'r rhain o fewn y cwmpas (hyd yma).
- Mae'n bosibl y byddwn yn dymuno cydleoli Data Perfformiad a Gwasanaethau Llywodraethwyr, neu y dylem fod yn gwneud hynny. Nid Gwasanaethau Gwella Ysgolion yw'r rhain mewn gwirionedd. Os ydynt yn mynd i ymuno â'r Consortia yn y cam hwn, rhaid iddynt fod 'o fewn y cwmpas' ym mhob un o'r ALLau yn y Consortiwm hwnnw ar yr un pryd â GY.

- Ceir nifer fach o swyddi Gwella Ysgolion hybrid, e.e. lle bydd rhywun yn gwneud rhywfaint o waith Gwella Ysgolion a rhywfaint o Waith Cynhwysiad. Y rheol i'w chymhwyso yw os bydd 60% o'r Swydd-Ddisgrifiad ar gyfer y swydd ym maes Gwella Ysgolion, mae'r swydd o fewn y cwmpas. Dyma ymagwedd glir y gellir ei hamddiffyn.
- Bydd rhai cydweithwyr yn dadlau bod yr holl Staff Addysg yn ymwneud â Gwella Ysgolion. Er bod hyn yn wir yn gyffredinol ac yn ddamcaniaethol, mae'n ddadl dwyllodrus (ac mewn achosion eithafol wedi'i chynllunio i gymylu pethau).
- Mae'r un ddadl yn berthnasol i swyddi hybrid. Maent naill ai oddi mewn neu oddi allan i'r cwmpas, o ran y maen prawf 60%. Os na ellir diffinio cylch gorchwyl a swyddogaeth unrhyw swydd mewn modd eglur a hawdd ei ddeall, yr hyn y dylem fod yn ei ofyn yw: a oes angen y swydd hon?

## Chwe Swyddogaeth Allweddol Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol<sup>7</sup>

Dyma'r 6 swyddogaeth:

1. **Cynorthwyo ALLau i gyflawni'u swyddogaethau statudol mewn perthynas ag effeithiolrwydd ysgolion drwy:**
  - Ffonitro gwaith a pherfformiad ysgolion ar sail ystod o dystiolaeth ac adrodd ynghylch hyn.
  - Herio ysgolion ar sail perfformiad a darpariaeth yr ysgol gyfan, ac mewn perthynas â rhaglenni dysgu unigol a threfniadau cefnogi disgyblion er mwyn ysgogi gwelliant yn neilliannau disgyblion.
  - Ymyrryd yn narpariaeth ysgol lle bo angen, a chefnogi ysgolion mewn anhawster a'r rhai hynny a chanddynt wendidau difrifol.
  - Hyrwyddo defnyddio a dehongli data er mwyn sicrhau atebolrwydd deallus.
  
2. **Rhoi cymorth i ALLau ac Ysgolion (gyda'i gilydd ac ar wahân, yn ôl y galw) mewn gweithgarwch Gwella Ysgolion drwy:**
  - Gynorthwyo ysgolion i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud ag effeithiolrwydd/gwella ysgolion a deilliannau disgyblion.
  - Rhoi cyngor a chefnogaeth ar addysgeg (dysgu, addysgu), arweiniad a rheolaeth, ac ar atebolrwydd deallus a datblygiad proffesiynol. (Hunanwerthuso, asesu a monitro).
  - Datblygu a lleoli, ar drefniant gweithiwr cyswllt, arweinwyr systemau ac ymroi i ddatblygu'r agenda arwain systemau.
  - Hwyluso a chefnogi rhwydweithio a rhwydweithiau arfer proffesiynol lle bo angen.
  - Mynd i'r afael â materion sy'n destun pryder mewn ysgolion ac ALLau a chefnogi ysgolion lle ceir angen am welliant sylweddol.
  - Darparu arbenigedd ym maes TG (Cwricwlwm ac Addysgeg) a Rhith-amgylcheddau Dysgu
  
3. **Cymryd cyfrifoldeb penodol am Weithredu'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion ac am atebolrwydd y Fframwaith Arolygu Cyffredin drwy:**
  - Ddarparu a datblygu arbenigedd staff a gwybodaeth y sefydliad ym maes addysgu a dysgu.
  - Cefnogi hunanarfarnu ysgolion.
  - Cynorthwyo'r ALLau a'r ysgolion i arfer eu cyfrifoldebau mewn perthynas â'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion – gan gynnwys gwella deilliannau a lles disgyblion.
  - Sicrhau bod holl weithgareddau gwasanaeth rhanbarthol yn cael eu cyflawni yng nghyd-destun y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion.

<sup>7</sup> 'Adroddiad ar ddichonolrwydd a goblygiadau sefydlu Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol ar gyfer y chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru' Gerson Davies, Ymgynghorydd Annibynnol, Ionawr 2011



- Hwyluso datblygiad a gwaith Cymunedau Dysgu Proffesiynol.
- Cefnogi Ysgolion sy'n Destun Pryder, a mynd i'r afael â'u hanghenion.
- Cyfrannu tuag at baratoi am arolwg Estyn o ysgolion unigol, ac am arolygon eraill.
- Gwneud trefniadau ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus drwy gynnal cyrsiau, broceru, casglu a dosbarthu arfer da, a datblygu Porth rhanbarthol.

**4. Darparu ar gyfer datblygu, cynnal ac adolygu fframweithiau rhanbarthol drwy drefniant comisiynu, gan gynnwys:**

- Protocolau.
- Dogfennau a chanllawiau gweithredol.
- Dogfennau a bwletinau.

**5. Darparu canolfan arbenigedd ar gyfer gwasanaeth system gwybodaeth reoli ac ar gyfer rheoli, dadansoddi a dehongli data**

**6. Darparu canolfan arbenigol ar gyfer materion rheoli Addysg a Gwasanaeth Adnoddau Dynol Addysg i gynnig arbenigedd a chynghor.**

Er bod y cyfrifoldebau a nodir uchod yn creu fframwaith ar gyfer y gwasanaeth rhanbarthol, byddai angen gwneud trefniadau i sicrhau bod anghenion awdurdodau ac ysgolion unigol yn cael eu hadlewyrchu yn y gwasanaeth a ddarperir; y Pwyllgor Comisiynu ar y Cyd fydd yn gyfrifol am wneud hyn. Os yw gwasanaeth rhanbarthol i fod yn gyfrifol am y swyddogaethau hyn, ni ddylai'r gwasanaeth hwnnw fod yn ymwneud â gweithgareddau eraill oni chaiff ei gomisiynu'n benodol i wneud hynny.

## **Eglurhad ynghylch Modelau Llywodraethu<sup>8</sup>**

Ceir pedwar opsiwn ar gyfer Llywodraethu. Y rhain yw:

- A - Cyd-bwyllgor
- B - Awdurdod Lletyol
- C - Cwmni Cyfyngedig Drwy Warrant
- D - Cwmni Buddiannau Cymunedol

Mae'r ddogfen hon yn anelu i roi amlinelliad o nodweddion, manteision ac anfanteision pob opsiwn.

### **Opsiwn A - Cyd-bwyllgor**

Dyma nodweddion yr opsiwn hwn:-

Bydd Cynghorau'n cydweithio drwy ddefnyddio pwerau o dan Adrannau 111-112, Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Caiff Cyd-bwyllgor ei ffurfio sy'n cynnwys Aelodau Etholedig o'r holl Gyngorau sy'n cymryd rhan.

Gall Bwrdd Rheoli gyflawni'r swyddogaethau gweithredol, gan adrodd i'r Cyd-bwyllgor.

Caiff staff eu cydleo. Bydd gan y sefydliad hunaniaeth gyffredin.

Gellir rhedeg y sefydliad ar hyd braich, fel Consortiwm.

#### **Manteision**

- Y lleiaf o newid.
- Yn nes at ddemocratiaeth
- Llai o oblygiadau o ran AD, tymor byr (gan gynnwys pensiynau)
- Staff yn cael eu derbyn yn awtomatig i'r Gronfa Bensiynau Llywodraeth Leol

#### **Anfanteision**

- Ni all gyflogi staff (heb y Cyngor Lletyol)
- Ni all roi gwaith ar gontract
- Mae'n bosibl na fydd yn cynnwys digon o randdeiliaid (e.e. Ysgolion fel aelodau ffurfiol)
- Mae'n bosibl na fydd yn cyd-fynd â'r hyn sydd gan LIC mewn golwg.
- Pwy sy'n darparu gwasanaethau 'cefn swyddfa'?

### **Opsiwn B – Awdurdod Lletyol**

Y nodweddion yw bod y Cyngor yn ysgwyddo'r holl gyfrifoldeb o redeg Consortiwm, gan gyflogi staff yn bennaf, a'r holl ystyriaethau sy'n gysylltiedig â hynny.

---

<sup>8</sup> Nick Jarman, Ymgynghorwyr Rheoli Windsor and Co.

Mae'r Awdurdod Lletyol i bob pwrpas yn cyflenwi'r gwasanaeth ar ran y Cynghorau eraill a'r Cynghorau eraill yn talu'r gost pro rata i'r Awdurdod Lletyol am eu cyfran o'r gwasanaethau a'r costau. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiadau tanysgrifennu.

Caiff Cyd-bwyllgor ei sefydlu i Lywodraethu'r gwasanaeth (h.y. nid yr Awdurdod Lletyol sy'n gwneud yr holl benderfyniadau). Byddai'r Consortiwm yn gweithredu yn yr union un ffordd â'r Consortiwm yn Opsiwn A.

Ceir rhai enghreifftiau o gynseiliau sydd wedi'u sefydlu, e.e. Sefydliad Pwrcasu Swydd Efrog (YPO)

### **Manteision**

- Gall gyflogi
- Gall roi gwaith ar gontract
- Telerau ac Amodau cyson
- Darpariaeth cefn swyddfa sengl
- Yn cyflawni ar ran Rhanddeiliaid
- Caiff staff eu derbyn yn awtomatig i'r Gronfa Bensiynau Llywodraeth Leol

### **Anfanteision**

- Sicrhau cytundeb (gwleidyddol) parhaol
- Problemau'n gysylltiedig â bri
- Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth)
- Pensiynau (Trosglwyddo atebolrwydd/diffyg)
- Ymddiriedaeth Wleidyddol
- O blith yr holl opsiynau, dyma'r un sy'n cadw'r lleiaf o hyd braich

## **Opsiwn C - Cwmni Cyfyngedig Drwy Warant**

Byddai'r Cynghorau'n cytuno i sefydlu Cwmni Cyfyngedig Drwy Warant, y mae ei Aelodau'n berchen arno. Gallai hyn gynnwys Ysgolion.

Ni ddylid cymysgu hyn â phreifateiddio neu ddefnyddio ffynhonnell allanol. Aelodau'r cwmni sy'n berchen arno, sef Cynghorau (ac Ysgolion o bosib), ac mae'n perthyn yn gyfan gwbl i'r Sector Cyhoeddus. Nid yw'n Gwmni Cyfyngedig drwy Gyfranddaliadau.

Mae ei nodweddion gweithredol yn debyg i Opsiynau A a B, ond Cyfarwyddwyr y Cwmni fyddai'n llywodraethu arno, sef unigolion a fyddai'n cael eu penodi gan Aelodau'r Cwmni, h.y. Cynghorwyr (ac Ysgolion o bosib).

Mae Cyfarwyddwyr Cwmni wedi'u hindemnio, ar yr amod nad ydynt yn torri eu Dyletswyddau Ymddiriedol. Rheolir y math hwn o drefniant gan Ran IV Deddf Llywodraeth leol a Thai 1989, fel y cafodd ei diwygio gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2002. Ar yr amod bod 75% o'r hawliau pleidleisio'n cael eu harfer gan Gynghorau, tybir bod y Cwmni'n Gwmni a Reolir gan Awdurdod Lleol.

### **Manteision**

- Hyd braich, felly pellter oddi wrth densiynau
- Aelodaeth luosog
- Gall gyflogi
- Gall roi gwaith ar gontract
- Wedi'i ddiogelu rhag Hawliadau Cyflog Cyfartal
- Gall bennu a chysoni cyflog ac amodau
- Costau cefn swyddfa is o bosib

## **Anfanteision**

- Gwleidyddol
- Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth)
- Statws derbyn i'r Gronfa Bensiynau Llywodraeth Leol. Gallai fod yn anneniadol i Awdurdodau Pensiwn.
- Rhaid iddo barhau'n solfent. (A fyddai'r diffyg pensiwn yn peri bod y Cwmni'n ansolfent i bob pwrpas, oni fyddai'r Cynghorau'n tanysgrifennu'r diffyg hwnnw?)

## **Opsiwn D - Cwmni Buddiannau Cymunedol**

Mae'r opsiwn hwn wedi bod ar gael ers mis Gorffennaf 2005.

Yn eu hanfod, mae nodweddion yr opsiwn hwn yr un peth ag Opsiwn C.

Bu'r opsiwn hwn yn ddefnyddiol ar gyfer e.e. Trosglwyddo'r Stoc Tai, ac fe'i dyluniwyd i sicrhau manteision ymgyrch gorfforaethol gan osgoi unrhyw amheuaeth o breifateiddio ar yr un pryd.

Ar gyfer yr opsiwn hwn, ceir gofyniad i ddangos 'buddiant cymunedol'. Gall y CBC hefyd fod yn Elusen Gofrestredig. Mae rhai manteision i hyn o ran treth.

## **Manteision ac Anfanteision**

Mae'r rhain yr un peth ag Opsiwn C.

Nid oes unrhyw beth i'w gymeradwyo'n arbennig am yr opsiwn hwn yn ychwanegol at yr hyn a geir yn Opsiwn C.

## **Drafft Enghreifftiol Manylion am yr Unigolyn ar gyfer Arweinydd Systemau**

### **Cyflwyniad**

Rôl benodol yr arweinydd systemau, sydd dan ystyriaeth yma, yw cynnig her a chefnogaeth broffesiynol i ysgolion, gan gynorthwyo penaethiaid a llywodraethwyr i werthuso'u perfformiad, nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella a chynllunio newid effeithiol.

Bydd yr arweinydd systemau'n gweithredu ar ran yr awdurdod lleol, ac yn brif sianel er mwyn i'r awdurdod lleol gyfathrebu ag ysgolion ynghylch gwella.

Bydd yr awdurdod lleol/consortia'n pennu dyraniadau penodol o amser ar gyfer pob ysgol, yn seiliedig ar y band a gytunwyd ar gyfer yr ysgol, a natur ei hanghenion. Mae'r swyddogaethau craidd yn cynnwys bod yn aelod o'r panel arfarnu ar gyfer rheoli perfformiad y pennaeth.

Bydd yr arweinydd systemau'n cynnig her a chefnogaeth broffesiynol i nifer o ysgolion a gynhelir gan un neu fwy o awdurdodau oddi mewn i gonsortiw neu ar draws consortia drwy:

- weithredu fel cyfaill proffesiynol beirniadol i'r ysgolion, cynorthwyo'r pennaeth a'r llywodraethwyr i werthuso perfformiad eu hysgol, nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella a chynllunio newid effeithiol;
- helpu i gynyddu cynhwysedd yr ysgolion i wella cyflawniad disgyblion ac i wireddu deilliannau allweddol ar gyfer disgyblion sy'n effeithio ar gyflawniad;
- cyfrannu tuag at welliant ysgol gyfan yn yr ysgolion, gan gynnwys cyfrannu'n effeithiol tuag at ddeilliannau Gweithredu'r Hawliau;
- herio a chefnogi'r pennaeth yn yr ysgolion;
- darparu gwybodaeth i gyrrff llywodraethu am berfformiad a datblygiad eu hysgol.

### **Drafft Enghreifftiol o Fanylion am yr Unigolyn ar gyfer Arweinydd Systemau**

Mae'r safonau craidd sylfaenol canlynol yn disgrifio proffil o'r nodweddion a'r sgiliau cyffredinol sydd eu hangen er mwyn cyflawni rôl Arweinydd Systemau'n effeithiol. Ym mhob consortiw, bydd angen sicrhau hefyd y gall y tîm o Arweinwyr Systemau, gyda'i gilydd, fodloni anghenion ysgolion mewn perthynas â'r iaith, y cyfnod a'r lleoliad.

### **Safonau Craidd Sylfaenol**

Bydd arweinwyr systemau'n bodloni'r meini prawf canlynol:

Naill ai:

- I. Byddant wedi llwyddo i wella perfformiad ysgol yn sylweddol mewn swydd arwain mewn ysgolion;
- II. Bydd ganddynt rôl arweiniol mewn ysgol lle mae safonau deilliannau a chanddynt werth ychwanegol wedi gwella ac/neu'n dangos tystiolaeth o welliant sylweddol a pharhaus;
- III. Byddant yn gallu arddangos strategaethau a ddefnyddiwyd i sicrhau lefelau uchel o gysondeb yn ansawdd y dysgu a'r addysgu a chryfder yng nghynhwysedd arwain ehangach yr ysgol;

- IV. Byddant wedi gwneud cyfraniad ehangach tuag at ddatblygiadau addysg ac/neu wella ysgolion y tu hwnt i'w hysgol eu hunain.

NEU:

- V. Byddant yn weithiwr proffesiynol mewn swydd ym maes gwella addysg, gyda rôl arwain sylweddol mewn ysgol neu awdurdod lleol;
- VI. Byddant yn gallu arddangos effaith sylweddol ar welliant mewn ysgol yn eu rôl bresennol;
- VII. Byddant yn gallu arddangos arweiniad a rheolaeth effeithiol yn eu rôl bresennol;
- VIII. Byddant wedi gwneud cyfraniad tuag at ddatblygiadau addysg ehangach yn eu hawdurdod lleol ac / neu gonsortiw.

A

- IX. Byddant yn gallu gweithio mewn modd sensitif a chydweithredol ag ystod o bartneriaid a rhanddeiliaid;
- X. Byddant yn gallu arddangos sgiliau deallusrwydd emosiynol i gefnogi gwaith effeithiol ag ysgolion sy'n tangyflawni a phartneriaid eraill;
- XI. Byddant yn ymrwymedig i gynnig her a chefnogaeth effeithiol i ysgolion;
- XII. Bydd ganddynt brofiad o ddylanwadu ar ffyrdd o feddwl, polisïau ac arferion er mwyn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau dysgu a chyfluoedd bywyd plant a phobl ifanc;
- XIII. Byddant wedi dangos ymrwymiad tuag at eu datblygiad proffesiynol eu hunain a hefyd wedi ymroi i gefnogi datblygiad proffesiynol cydweithwyr;
- XIV. Bydd ganddynt dealltwriaeth lawn o'r *Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion* a goblygiadau'r fframwaith hwnnw.

Bydd arweinwyr systemau hefyd fel arfer yn arddangos y sgiliau a'r priodoleddau canlynol:

- I. Cyfathrebwyr medrus ar lafar ac mewn ysgrifen;
- II. Yn hyddysg ym maes gwella ysgolion sy'n wynebu anawsterau;
- III. Yn uchelgeisiol dros blant a phobl ifanc, ac yn benderfynol o wella deilliannau ar eu cyfer;
- IV. Yn fedrus wrth reoli a chynnal newid er gwell;
- V. Yn strategol eu hymagwedd ac yn gallu gwahaniaethu rhwng cyfrifoldebau arwain gweithredol a strategol;
- VI. Sgiliau cryf wrth gydweithio, fel arweinydd ac fel aelod o dîm, ac yn gallu gweithio'n agos ag ystod eang o bartneriaid a rhanddeiliaid gan gynnwys penaethiaid a'r staff mewn ysgolion, llywodraethwyr, AEMau a swyddogion awdurdod lleol;
- VII. Yn gallu nodi'r prif faterion perfformiad mewn ysgolion gyda phendantwrydd, gan gynnwys cryfderau a gwendidau cymharol, a mynd i'r afael â'r materion hynny;
- VIII. Yn hyfforddwr ac/neu'n fentor cymheiriaid profiadol;
- IX. Yn ddadansoddol ac arfarnol, yn deall dangosyddion perfformiad ac yn gallu dehongli data meintiol ac ansoddol manwl a chymhleth yn fanwl gywir a chyflym, a gofyn cwestiynau heriol a thrwyadl, archwilio eglurhadau o wraidd y broblem ac agweddau sy'n ymddangos yn anghyson;
- X. Yn arddangos barn gadarn, yn gallu nodi materion allweddol yn fanwl gywir a

rhoi adborth manwl gywir ac ystyrlon, ar lafar ac yn ysgrifenedig;

- XI. Yn gallu deall a gweithredu egwyddorion systemau sicrhau ansawdd a'u hymarfer, gan gynnwys hunanwerthusiad a rheoli perfformiad ysgolion;
- XII. Yn gallu deall deddfwriaeth cyfle cyfartal a'r materion sy'n gysylltiedig â chyflawniad gwahanol grwpiau o ddisgyblion, er enghraifft Plant Mewn Gofal, bechgyn, merched, rhai o wahanol grwpiau ethnig neu grwpiau economaidd-gymdeithasol wahanol, a rhai ag anabledd neu ag anghenion dysgu ychwanegol.

## Amcanestyniad Ariannol

### Achos Economaidd (Gwerth am Arian)

Er y bydd modd dirprwyo neu roi gwasanaeth ar gontract, bydd angen i bob awdurdod lleol gael mynediad at gynhwysedd i fonitro perfformiad, goruchwyllo'n strategol a chynghori aelodau. Mewn unrhyw drefniant lle rhennir gwasanaeth, bydd pob awdurdod lleol unigol yn cadw ei gyfrifoldeb statudol ei hun am ddarpariaeth gwasanaeth, a bydd ei gymuned ei hun yn ei ddwyn i gyfrif am yr hyn a gyflawnwyd, neu nas cyflawnwyd.

Mae llawer o drefniadau posibl ar gyfer llywodraethu'r gweithgarwch a rennir, a'r rheiny'n amrywio. Pwrpas y gwasanaeth hwn a rennir yw cael tîm craidd o arweinwyr systemau a fydd yn arwain gwelliant parhaus mewn Ysgolion. Amcangyfrifir mai costau staff fydd 84% o gostau'r gwasanaeth. Tybiwyd felly na fydd costau'r gwasanaeth a rennir yn amrywio rhyw lawer rhwng y gwahanol ddulliau o lywodraethu. Y costau a nodir yn yr adran hon felly yw costau tybiedig y model cyflenwi.

### Gwerthusiad Ariannol

Ceir dadansoddiad llawn o'r costau rhagamcanol, yr arbedion a'r tybiaethau yn Atodiad 4.

Er mwyn cyfrifo llinell sylfaen y gwasanaeth a gyflenwir ar hyn o bryd ar draws y chwe awdurdod yng Ngogledd Cymru cytunwyd ar y cwmpasau canlynol:

- Cwmpas y Gwasanaeth - Y gwasanaeth yr ystyriwyd ei fod o fewn y cwmpas ar gyfer y llinell sylfaen oedd y Gwasanaeth Gwella Ysgolion
- Cwmpas Staff – Yr aelodau o staff yr ystyriwyd eu bod o fewn y cwmpas oedd y rhai hynny sy'n treulio 65% neu fwy o'u hamser (canran y cytunwyd arni'n genedlaethol) yn gweithio ar swyddogaethau gwella ysgolion craidd.<sup>9</sup>

Dyma grynodedb o'r model cyflenwi newydd:

Amcangyfrifir bod y gwasanaethau sydd o fewn y cwmpas yn costio £5,174,000 ar hyn o bryd, ac ar ôl clustnodi 10% o arbedion effeithlonrwydd ceir adnodd rhanbarthol o tua £4,674,000 er mwyn sefydlu gwasanaeth rhanbarthol sy'n cynnwys:

(i) tîm craidd o 'Arweinwyr Systemau' a reolir gan 'Brif Swyddog' ac a gefnogir gan 'Dîm Busnes', er mwyn sicrhau y gellir comisiynu swyddogaethau statudol yr ALLau gan y gwasanaeth rhanbarthol. Mae model cychwynnol y tîm craidd yn seiliedig ar y tybiaethau canlynol:

- y byddai ar bob ysgol angen cefnogaeth Arweinydd Systemau am 3 diwrnod y flwyddyn i gyflenwi gwelliant parhaus mewn Addysg yn unol â'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion;
- y byddai ar unrhyw ysgol sy'n destun pryder angen cefnogaeth Arweinydd Systemau am 16 diwrnod ychwanegol y flwyddyn (tybir y byddai hyn yn effeithio ar 35% o'r ysgolion yn y modelu cychwynnol);
- amcangyfrifir 3 diwrnod arall y flwyddyn ar gyfartaledd, fesul ysgol, er mwyn i Arweinwyr Systemau roi cefnogaeth benodol ar gyfer effeithiolrwydd a gwelliannau mewn llythrennedd a rhifedd (yn dibynnu ar angen).

(ii) tîm estynedig (sy'n cynnwys e.e. Arweinwyr Systemau ac/neu arbenigwyr cwricwlwm) a gomisiynir gan ALLau/ysgolion, ac a reolir gan y Prif Swyddog, er mwyn sicrhau digon o hyblygrwydd i ysgolion ac ALLau allu cyflawni'r agenda safonau.

<sup>9</sup> Swyddogaethau 'Gwella ysgolion craidd' yw *monitro, cefnogi, herio ac ymyrryd - ac eithrio'r canlynol: Y Blynnyddoedd Cynnar 14-19; Cynhwysiad; Cerddoriaeth; Athrawon Bro; Staff cefnogi TGCh; Ysgolion Iach; Pobl Ifanc Weithgar; Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion; Systemau Gwybodaeth Reoli; Addysg Awyr Agored.*



**Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol Gogledd Cymru**

Tabl 1: Model Cyflenwi			Bl.1 2012/13	Bl. 2 2013/14	Bl. 3 2014/15
Eitem	Math o Wariant	Manylion			
1	Cyfanswm yr Adnoddau Cyfredol	Amcangyfrif o swyddi "o fewn y cwmpas" ynghyd â chostau teithio a chyfathrebu cysylltiedig	3,018,000	5,174,000	5,174,000
2	Gostyngiad yn sgil arbedion effeithlonni	Targed arbedion y Bwrdd Rhanbarthol	-500,000	-500,000	-500,000
3	Adnoddau ar Gael ar gyfer y Gwasanaeth Newydd	Llai o adnoddau ar gael er mwyn cyrraedd y targed arbedion	2,518,000	4,674,000	4,674,000
<b>Cost Sylfaenol y Gwasanaeth Rhanbarthol</b>					
4	Prif Swyddog a'r Tîm Cefnogi Busnes	I gynnwys rheolwr, cefnogaeth weinyddol a PA, cyfieithydd Cymraeg/Saesneg a brocer	316,000	457,000	466,000
5	Arweinwyr Systemau - Effeithiolrwydd Ysgolion	Tîm Craidd o 31 o arweinwyr systemau cyfwerth â llawn amser i gyflenwi dyletswyddau statudol y 6 ALI	1,356,000	2,372,000	2,419,000
6	Costau Eraill	Llety, cludiant, cyflenwadau, gwasanaethau cefnogi a Chyllideb Comisiynu	421,000	554,000	565,000
7	<b>Cost y Gwasanaeth Craidd Rhanbarthol</b>	Tîm Craidd	<b>2,093,000</b>	<b>3,383,000</b>	<b>3,450,000</b>
8	Tîm Estynedig	Arweinwyr systemau cyswllt ac/neu arbenigwyr cwricwlwm a gomisiynir gan yr ysgolion	425,000	1,291,000	1,224,000
9	<b>Cost y Gwasanaeth Rhanbarthol</b>		<b>2,518,000</b>	<b>4,674,000</b>	<b>4,674,000</b>

*Nodiadau:*

Bl 1	Costau ar gyfer Blwyddyn 1 (2012/13)	Ym mwyddyn 1, tybir y bydd y costau'n berthnasol o fis Medi 2012 ymlaen (7 mis o'r flwyddyn ariannol) (ac eithrio'r Prif Swyddog o fis Ebrill 2012 ymlaen).
1	Cyfanswm yr Adnoddau Cyfredol	Ystyrir bod swyddi "o fewn y cwmpas" os treulir mwy na 65% o'r amser ar weithgarwch gwella ysgolion. Ariennir swyddi perthnasol ar hyn o bryd gan gymysgedd o gyllideb craidd ALI, grant allanol a chyllidebau a ddirprwywyd i ysgolion.
2	Arbedion Effeithlonrwydd	Un o amcanion y Bwrdd Rhanbarthol yw canfod arbedion o 10% o wariant Gogledd Cymru drwy ddarparu Gwasanaeth Rhanbarthol.
4	Prif Swyddog a'r Tîm Cefnogi Busnes	Rheolaeth a chefnogaeth graidd dybiedig y gwasanaeth rhanbarthol (cymhareb wein: 1:5, cyfieithydd Cymraeg/Saesneg, brocer).
5	Arweinwyr Systemau - Effeithiolrwydd Ysgolion	31 gweithiwr cyfwerth â llawn amser yn seiliedig ar 3 diwrnod fesul ysgol, 16 diwrnod ychwanegol ar gyfartaledd ar gyfer ysgolion sy'n destun pryder, a 3 diwrnod pellach er mwyn canolbwyntio ar lythrennedd a rhifedd.
6	Costau Eraill	Amcangyfrif ar gyfer llety a chostau cefnogi. Amcangyfrifir £500,000 fel cyllideb gomisiynu er mwyn i'r arweinwyr systemau gyflymu'r gwelliant mewn ysgolion sy'n destun pryder.
7	Gwasanaeth Craidd	Tîm Craidd sy'n sicrhau y gellir comisiynu holl swyddogaethau statudol ALI gan y gwasanaeth rhanbarthol.
8	Tîm Estynedig	Swyddi hyblyg tymor penodol er mwyn bodloni gofynion ysgolion i gyflenwi ac ychwanegu at y gwasanaeth er mwyn cyflawni'r agenda safonau.

**Tabl 2: Materion i'w hystyried ymhellach yn y cynllun achos llawn.**

<u>Costau gweithredu</u>		
10	Costau Gadael	Ceir amcangyfrif cychwynnol o £2.3 miliwn o gostau gadael posibl. Fodd bynnag, bydd yr achos busnes llawn yn cynllunio i sicrhau rheolaeth lwyr o'r adleoli, gan gynnwys opsiynau eraill yn lle costau gadael. Gallai'r amcangyfrif ostwng ymhellach ar ôl ymgynghori â'r ysgolion ynghylch faint o wasanaethau ychwanegol y gallent fod am eu comisiynu (nodyn 9). Nid yw'r gwasanaeth rhanbarthol yn ddichonadwy'n ariannol os oes gofyn iddo ariannu unrhyw gostau gadael. Ni ellir ond ei ystyried yn ddichonadwy'n ariannol os caiff y costau posibl hyn eu talu o ffynhonnell arall.
11	Pensiynau	Mae'n ofynnol i'r 6 ALI danysgrifennu'r diffyg pensiwn ar gyfer swyddi a drosglwyddir, yn dibynnu ar y trefniant Llywodraethu. Drwy hyn caiff y risg o fethu casglu cyfraniadau pensiwn yn y dyfodol o'r gronfa bensiwn ei throsglwyddo i'r 6 ALI. Mae'r model ariannol yn cynnwys cyfraniad uwch na'r cyffredin o'r gronfa bensiwn fesul swydd na'r hyn a delir ar hyn o bryd. Gwneir hyn i adlewyrchu'r posibilrwydd y bydd y gronfa bensiynau'n gofyn bod yr elfen ddirffygol yn y cyfraniad yn cael ei thalu'n ôl dros lai o flynyddoedd na'r hyn sy'n ofynnol gan yr ALIau ar hyn o bryd.
12	Costau Isadeiledd	Cysylltiadau TG ar draws y rhanbarth / Canolfannau swyddfa / Materion daearyddol
<u>Trefniadau Ariannu</u>		
13	Dirprwyo cyllidebau i ysgolion	Y nod cenedlaethol yw cynyddu'r arian sy'n cael ei ddirprwyo i ysgolion o gyfartaledd Cymru o 76% i 85% o'r gyllideb Addysg berthnasol. O ran comisiynu, ceir darlun cymysg ar draws y 6 ALI ar hyn o bryd, gyda rhai costau gwella ysgolion wedi'u cynnwys mewn cyllidebau craidd ac eraill wedi'u comisiynu gan ysgolion. Wrth i'r raddfa ddirprwyo gynyddu, bydd y gwasanaeth craidd rhanbarthol yn dibynnu mwy ar ysgolion a'u gweithgarwch comisiynu gwasanaethau.
14	Swyddi a ariennir drwy grant	Mae rhai o'r swyddi cyfredol wedi'u hariannu drwy grant a allai effeithio ar natur yr arbedion effeithlonrwydd a wireddir gan ALI unigol.
15	Dyrannu costau ar draws y 6 ALI	Mae angen ystyried y sail ar gyfer dyrannu cost y gwasanaeth i bob ALI unigol.

Tudalen 65

## Tybiaethau

1. Mae'r costau staff cyfredol yn seiliedig ar wybodaeth gan yr holl ALLau ynglŷn â swyddi cyfredol ac yn cynnwys amcangyfrifon o argostau Yswiriant Gwladol a chyfraniadau Pensiwn. Mae'r amcangyfrifon o gostau cludiant a chyfathrebu'n seiliedig ar y swm cyfartalog fesul staff cyfwerth â llawn amser.
2. Mae'r holl waith dadansoddi'n seiliedig ar y data a ddarparwyd hyd at ddydd Iau 30 Mehefin 2011.
3. Cyfrifwyd y costau'n seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd ar gyfer gwasanaethau a oedd o fewn y cwmpas. Mae ALLau wedi cael cyfle i wirio'r swyddi y diffiniwyd eu bod o fewn y cwmpas.
4. Tybir y caiff y gwasanaeth rhanbarthol ei reoli gan un Prif Swyddog gyda chymorth Tîm Cefnogi Busnes sy'n cynnwys gwasanaethau gweinyddol, broceru a chyfieithu Cymraeg/Saesneg, a fydd yn cefnogi'r gwasanaeth craidd.
5. Cydnabyddir, os caiff staff eu lleoli ar draws y rhanbarth, y bydd angen cysylltiadau TG er mwyn hwyluso trosglwyddo a chyfenwid data'n effeithiol. Nid yw costau gweithredu gofynion isadeiledd o'r fath wedi'u cynnwys ym model ariannol yr achos busnes amlinellol.
6. Mae costau swyddfa wedi'u cynnwys ar ffurf argostau cyfartalog y pen, fel amcangyfrif a fydd yn briodol p'un a fydd y gwasanaeth yn gweithredu o un lleoliad neu a fydd ganddo amryw o ganolfannau ar draws y rhanbarth,
7. Mae gofynion y tîm craidd yn seiliedig ar nifer yr ysgolion a gofnodwyd yn Adran 52 Datganiad Cyllideb 2010-11 ynghyd â newidiadau y rhoddodd yr ALLau wybod amdanynt, fel ag yr oeddynt ar 30 Mehefin 2011. Cydnabyddir bod ALLau yn gweithio ar gynlluniau ad-drefnu a fydd yn arwain at newid pellach yn nifer yr ysgolion yn y dyfodol. Mae dadansoddiad sensitifrwydd wedi cael ei gynnal ar y model cyflenwi, ac mae'r model yn caniatáu hyd at 3% o newid i'r data heb i hynny gael unrhyw effaith ariannol faterol. Mae'r model cyflenwi'n caniatáu adolygu cyflenwad y tîm craidd er mwyn adlewyrchu'r gofyniad i gyflenwi'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion wrth i nifer yr ysgolion a'r mathau ohonynt newid yn y dyfodol.

### *Model*

8. Mae'r model yn seiliedig ar 464 o ysgolion yng Ngogledd Cymru fel y cofnodwyd ar Ddatganiad Cyllideb Adran 52 2010-11, ynghyd â newidiadau y rhoddodd ALLau wybod amdanynt.
9. Mae'r model yn amcangyfrif y bydd 35% o'r holl Ysgolion yn Ysgolion sy'n Destun Pryder mewn unrhyw flwyddyn.
10. Tybir mai 172 o ddiwrnodau'r flwyddyn yw nifer y diwrnodau cynhyrchiol gan staff, er mwyn caniatáu wythnos waith, gwyliau blyneddol, salwch, hyfforddiant ac amser cynllunio a pharatoi.
11. Mae'r model yn tybio y bydd angen tîm craidd o 31 o Arweinwyr Systemau cyfwerth â llawn amser i gefnogi Ysgolion yn y rhanbarth. Mae hyn yn seiliedig ar yr amcangyfrif y byddai ar bob ysgol angen cefnogaeth Arweinydd Systemau am 3 diwrnod y flwyddyn i

gyflenwi gwelliant parhaus mewn Addysg yn unol â'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion. Mae'r model yn tybio y byddai ar unrhyw ysgol sy'n destun pryder angen cefnogaeth Arweinydd Systemau am 16 o ddiwrnodau ychwanegol y flwyddyn ar gyfartaledd. Mae amcangyfrif o 3 diwrnod arall y flwyddyn ar gyfartaledd wedi'i gynnwys er mwyn i Arweinwyr Systemau roi cefnogaeth benodol ar gyfer effeithiolrwydd a gwelliannau mewn llythrennedd a rhifedd.

### *Staffio*

12. Mae gan staff a oedd yn ymwneud â'r swyddogaeth gwella ysgolion pan oedd yn cael ei chyflawni gan sefydliadau ar wahân hawl i gael eu trosglwyddo i'r sefydliad newydd sy'n darparu'r swyddogaeth honno fel gwasanaeth a rennir. Byddai'r trosglwyddiad hwn yn unol â Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 (TUPE). O dan y rheoliadau hyn, bydd staff yn cadw'u holl hawliau cyflogaeth statudol a'u hawliau contract presennol. Ni ellir diswyddo unrhyw weithiwr na newid contractau o ganlyniad i'r trosglwyddo. Byddai unrhyw ddiswyddiadau neu newidiadau i gontractau yn y dyfodol yn digwydd am resymau economaidd, technegol neu drefniadol, yn gysylltiedig â'r cyflogwr newydd. Ni cheir ond gwneud newidiadau o'r fath drwy ymgynghori a dod i gytundeb â'r staff a'r undebau llafur.
13. Bydd gan y staff sy'n cael eu trosglwyddo amrywiaeth o wahanol delerau ac amodau. Bydd amgylchiadau trosglwyddiad TUPE yn diogelu rhag gofynion Deddf Cyflog Cyfartal 1970 am ryw hyd. Ond ymhen amser, bydd angen dilyn gweithdrefnau i gael gwared â gwahaniaethau. Er mwyn sicrhau rhaglen o gydweithio llwyddiannus, bydd angen ymglymiad gweithgar cyflogeion a'u hundebau llafur.
14. I ddibenion y model ariannol, tybiwyd y byddai cyflogau'r gweithwyr ynghyd â'r argostau cysylltiedig yn cael eu cysoni o fewn y chwarterl uchaf o flwyddyn 1 i fod ar £75,000, ac y byddai'r gwsanaeth yn gweithredu gyda llai o staff o fis Medi 2012.
15. Mae'r model yn ddichonadwy'n ariannol os caiff unrhyw gostau gadael ac/neu swyddi dros ben eu hariannu'n uniongyrchol gan y 6 ALI. Amcangyfrifir arbedion effeithlonrwydd y 6 ALI drwy gymharu costau'r gwasanaeth cyfredol â chostau rhedeg y gwasanaeth rhanbarthol newydd.

### *Cyllid*

16. Bydd angen cytuno ar fecanwaith sy'n caniatáu rhannu cyllid ar gyfer yr adnoddau hyn sy'n cael eu rhannu. Mae'r model yn tybio y bydd costau'r adnodd a rennir yn cael eu cyfrannu yn ôl fformiwla sy'n seiliedig ar nifer yr ysgolion. Tybir y ceir cyfle am system ariannu gymysg fel bod y gwasanaeth craidd diffiniedig yn cael ei ddarparu drwy rannu'r gost fesul cyfran yn seiliedig ar fformiwla, a bod modd i ysgolion gaffael gwasanaeth 'ychwanegol' fesul uned, naill ai'n unigol neu fel clwstwr.
17. Mae'r model cyflenwi'n tybio y caiff unrhyw adnoddau arian parod a gaiff eu rhyddhau o'r ALLau, yn ychwanegol at y targed arbedion effeithlonrwydd, eu dirprwyo i'r ysgolion. Bydd hyn yn galluogi'r ysgolion i froceru arweinwyr systemau cyswllt ychwanegol, neu arbenigwyr cwricwlwm, ar gyfer ysgol unigol neu glwstwr o ysgolion fel bo'r angen. Bydd lefel y galw am y tîm estynedig hwn yn effeithio ar lefel y staffio a bennir.

## Cynllun Prosiect <sup>10</sup>

## Atodiad 6

Cyf. Rhif	Gweithredu	Perchennog y Weithred	Dyddiad Dechrau	Dyddiad Gorffen Disgwyliedig
<b>Cam 1 - Achos Busnes Amlinellol</b>			<b>16 Mehefin 2011</b>	<b>15 Gorffennaf 2011</b>
SR 1	Datblygu proffiliau gwasanaeth gwella ysgolion ar gyfer pob un o 6 Awdurdod Gogledd Cymru (staff, cyllid a chyflenwi gwasanaeth)	Tîm Prosiect	16 Mehefin 2011	07 Gorffennaf 2011
SR 2	'Grŵp CCAC GC' i gytuno ar (i) y model llywodraethu a (ii) model(au) cyflenwi amlinellol, (arweiniad gan Nick Jarman)	Consortiwm CCAC GC	24 Mehefin 2011	24 Mehefin 2011
SR 3	Paratoi Drafft 1 <sup>af</sup> yr Achos Busnes Amlinellol	Tîm Prosiect	27 Mehefin 2011	30 Mehefin 2011
SR 4	Cyflwyno'r Achos Busnes Amlinellol i 'Grŵp CCAC GC' (06/07/2011) a gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol.	Rheolwr Prosiect	01 Gorffennaf 2011	07 Gorffennaf 2011
SR 5	Aelodau 'Grŵp CCAC GC' i gymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol (Terfynol) (drwy e-bost)	Consortiwm CCAC GC	08 Gorffennaf 2011	14 Gorffennaf 2011
SR 6	Cyflwyno'r Achos Busnes Amlinellol gerbron y 'Bwrdd Rhanbarthol Addysg a Gwasanaethau Eraill Cysylltiedig' i'w gymeradwyo	Cadeirydd Consortiwm CCAC GC	15 Gorffennaf 2011	15 Gorffennaf 2011
<b>Cam 2 - Cyfathrebu'r Achos Busnes Amlinellol wrth Randdeiliaid</b>			<b>16 Gorffennaf 2011</b>	<b>31 Rhag 2011</b>
SR 7	Cynllunio'r dulliau cyfathrebu priodol ar gyfer y grwpiau o randdeiliaid a nodwyd (gan gynnwys ymgysylltu ar y cyd â'r undebau)	Tîm Prosiect	16 Gorffennaf 2011	31 Awst 2011
SR 8	Cytuno ar y dulliau cyfathrebu â 'Grŵp CCAC GC' (dyddiad)	Rheolwr Prosiect	01 Medi 2011	10 Medi 2011
SR 9	Cyflwyno'r Achos Busnes Amlinellol gerbron y Cabinet ym mhob un o'r Awdurdodau yng Ngogledd Cymru (digwyddiad dilynol i'r aelodau ar 16 Medi), er mwyn cytuno (i) i symud ymlaen â'r Cynllun Prosiect a (ii) i benodi Prif Swyddog i reoli'r Gwasanaeth Rhanbarthol	Consortiwm CCAC GC	01 Medi 2011	30 Medi 2011
SR 10	Cyfathrebu'n ffurfiol â'r rhanddeiliaid	Tîm Prosiect	01 Hyd 2011	31 Rhag 2011
SR 11	Anfon hysbysiadau 'o fewn cwmpas' ar gyfer swyddi yn dilyn trafodaethau â'r aelodau o staff - y cyflogwr i ymdrin â phawb ar yr un pryd	Timau AD Awdurdod Lleol	01 Rhag 2011	31 Rhag 2011
<b>Cam 3 – Achos Busnes Llawn</b>			<b>18 Gorffennaf 2011</b>	<b>31 Mawrth 2012</b>
SR 12	Ymhelaethu ar y dadansoddiad cost a budd llawn ar gyfer y model(au) llywodraethu a chyflenwi (gan gynnwys is-fodelau ar gyfer strwythurau cyllid a	Tîm Prosiect	18 Gorffennaf 2011	31 Rhag 2011

<sup>10</sup> Dogfennau Consortiwm CCAC Gogledd Cymru, Prosiect Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol (f7)

Cyf. Rhif	Gweithredu	Perchennog y Weithred	Dyddiad Dechrau	Dyddiad Gorffen Disgwyliedig
	staff; atborth o'r ymgynghoriad ar yr Achos Busnes Amlinellol)			
SR13	Datblygu a chytuno ar y broses er mwyn penodi Prif Swyddog	Consortiwm CCAC GC	18 Gorffennaf 2011	1 Medi 2011
SR 14	Penodi'r Prif Swyddog ( <i>rhaid penodi erbyn diwedd mis Hydref, i ddechrau'r swydd ym mis Ionawr</i> )	Consortiwm CCAC GC	2 Medi 2011	31 Hyd 2011
